# tafod elái

www.tafelai.net

Ebrill 2003 — Pris 40c — Rhif 176


## DYFODOL CYMRU

Mewn cyfnod o ansicrwydd a rhyfela rhyngwladol mae'n hawdd anghofio fod rhaid i ni yma yng Nghymru benderfynu ar ddyfodol ein cenedl drwy bleidleisio ar gyfer aelodau newydd i'r Cynulliad ar ddydd Iau, Mai 1af.

Mae pedair blynedd cyntaf y Cynulliad wedi dangos fod posibiliadau enfawr i ni wneud penderfyniadau sy'n fwy perthnasol i'n hamgylchiadau ac sy'n arwain y ffordd i wledydd eraill.

Mae'r Cynulliad wedi rhoi sylw arbennig i ddyfodol yr iaith Gymraeg ond mae llawer rhagor i'w wneud i sicrhau fod yr iaith yn goroesi.

Felly ar Fai 1af cofiwch bleidleisio.

## SWYDDOG Y GYMRAEG

Penodwyd Caroline Mortimer yn Swyddog y Gymraeg dros Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Ei gwaith fydd sicrhau bod holl wasanaethau y cyngor yn cael eu darparu yn ddwy-ieithog ac annog trigolion y sir i wneud defnydd o'r gwasanaethau.

Hoffai wybod am unrhyw sylwadau, cwynion sydd gan siaradwyr Cymraeg yr ardal, ynglyn â gwasanaeth dwyieithog y Cyngor, gyda'r nod o'i wella.

Lansiwyd Cynllun Iaith newydd y cyngor yn ddiweddar a bydd yn cael ei weithredu dros y flwyddyn nesaf.

Rhiff ffôn Caroline Mortimer yw – 01685 885265.

## CEFNOGI HOCI IÂ




Daeth cynrychiolwyr o dîm 'Cardiff Devils' i Ysgol Castellau i siarad â'r plant ym mis Chwefror. Mae rheolwr cyffredinol y tîm, Mr. Bill Buglass yn dadcu i Christian Bird, sydd yn y dosbarth Derbyn. Daeth dau o chwaraewyr y tîm Jeff Burgoyne a Kurt Walsh i ddangos yr offer a'r wisg a sôn am eu plentyndod yng Nghanada. Yn dilyn yr ymweliad aeth tua hanner cant o blant i ymuno â'r hwyl yn y stadiwm yng Nghaerdydd. Diolch hefyd i Mr. Buglass am drefnu cyfraniad ariannol i gronfa'r ysgol.




## Siop Ar Lein

Croeso mawr i Wefan Mabon a Mabli - gwefan newydd sbon lle gallwch bori a phrynu o'r dewis eang o lyfrau Cymraeg/dwyieithog a nwyddau eraill i blant bach. Sail y dewisiad yw'r adnoddau cynhyrchwyd gan Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) - adnoddau unigryw sydd yn adnabyddus ym myd addysgol y blynyddoedd cynnar am eu hansawdd ardderchog, gan gynnwys Snap Tedi, gêm Ein Cartref Ni, pecyn Tedi Twt, Cardiau Fflach y Wyddor ynghyd â'r llyfrau newydd yng nghyfres Mabon a Mabli, Y Picnic a Pump Tedi Prysur.

Hefyd ar y Wefan mae 'na lwyth o lyfrau stori eraill, llyfrau ffeithiol, canu a lliwio ac wrth gwrs mae llawer ohonynt yn addas i ddysgwyr. Bydd y fideos, casetiau, CDs a CD-Roms, gemau, jigsos a phosteri i gyd yn siwr o apelio at blant ifanc.

Mae'r Wefan yn ddwyieithog er mwyn i bawb fedru ei fwynhau. Gan fod y safle yn ddiogel, gall cwsmeriaid fod yn hyderus bod eu manylion taliadol yn hollol gyfrinachol

**www.mabonamabli.co.uk**

# tafod elái


***GOLYGYDD***
***Penri Williams***
***029 20890040***

***LLUNIAU***
***D. J. Davies***
***01443 671327***
***HYSBYSEBION***
***David Knight 029 20891353***
***DOSBARTHU***
***John James 01443 205196***
***TRYSORYDD***
***Elgan Lloyd 029 20842115***
***CYHOEDDUSRWYDD***
***Colin Williams***
***029 20890979***

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 9 Mai 2003
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
30 Ebrill 2003

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.net**
*e-bost*
**pentyrch@tafelai.net**

*Argraffwyr:*
**Gwasg Morgannwg**
**Uned 27, Ystad Ddiwydiannol**
**Mynachlog Nedd**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**



www.cwlwm.com
Gwybodaeth am holl weithgareddau Cymraeg yr ardal.



CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT…
**0845 6076070**
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol
www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk


## Merched y Wawr
**Cangen y Garth**

**Ymweld â Chrochendy Nantgarw**
**(Sgwrs gan Mr Jim Lloyd).**

**Nos Fercher, Ebrill 12**
**Am 6.50 o'r gloch.**

**Pryd o fwyd yn y Tynant i ddilyn.**
**(Cofiwch gysylltu â Loreen, 01443 204391, os ydych am archebu bwyd)**


## YMGYRCH STAFF CIC

Mae Cynllun Ieuenctid y Cymoedd (CIC) yn darparu gweithgareddau Cymraeg/Dwyieithog tu allan i oriau ysgol i ieuenctid Rhondda Cynon Taf.

Rydym yn edrych am staff newydd i ymuno â ni i gryfhau ein tîm. Hoffech chi ymuno â ni fel arweinydd neu i gynorthwyo mewn clwb sydd wedi ei sefydlu yn barod, NEU, efallai bod sgil newydd gyda chi i sefydlu clwb newydd, NEU efallai eich bod yn adnabod rhywun â diddordeb..... Y tâl cyffredinol yw £10 yr awr i arweinyddion neu £6 yr awr os ydych yn cynorthwyo.

Rydym hefyd yn chwilio am staff / gwirfoddolwyr i ymuno â ni ar ein tripiau hanner tymor.

Os oes diddordeb yn y swyddi neu os oes sgil arall yr hoffech chi ddefnyddio i arwain ieuenctid ardal Rhondda Cynon Taf .
Cysylltwch â
Amy Davies / Vicky Pugh
Swyddfa CIC, Canolfan yr Urdd,

Os am
***DIWNIWR PIANO***

*Cysyllter â*
**Hefin Tomos**
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
***Ffôn: 029 20484816***

## CYLCH CADWGAN

***Branwen Jarvis***
yn siarad ar y testun
**'Saunders Lewis: ai Pabydd wedi'r cyfan?'**
**8pm Nos Wener**
**9 Mai 2003**
Ysgol Creigiau
Gyda chymorth yr academi

**Menter Iaith**
## CWLWM BUSNES Y CYMOEDD
**Yng Nghanolfan**
**Menter y Cymoedd,**
**Parc Navigation, Abercynon**
**6.30 – 9.00**

**NOS FAWRTH Ebrill 25**
**Dean Powell**
**Golygydd y Pontypridd Observer**
Am fanylion pellach cysylltwch â:
Julie Willams
☎ 01685 877183
✉ juliewilliams@menteriaith.org

## CYNGERDD MAWREDDOG

**Côr ABCh (Aberystwyth)**
**Dawnswyr Nantgarw**
**Côr Godre'r Garth**

**7.30 Nos Sadwrn, 10^ed^ Mai 2003**

**Neuadd**
**Ysgol Gyfun Rhydfelen**

**Tocynnau £5 i oedolion**
**£2.50 i blant**

**Oddi wrth : 029 20 763426**

**Elw tuag at Gronfa Arch Noa**

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

**Penblwydd**
Llongyfarchiadau arbennig i D.J., ein gohebydd yn Nhonyrefail, ar groesi carreg filltir arall. Mae ei gyfraniad i fywyd Cymraeg yr ardal dros y blynyddoedd wedi bod yn sylweddol a hir y parhaed.




**D.J.**

**DATHLU CANMLWYDDIANT EGLWYS DEWI SANT TONYREFAIL 1903—2003**

Mae aelodau Eglwys Dewi Sant Tonyrefail yn dathlu canmlwyddiant adeiladu yr Eglwys bresennol, ac mae yna lawer o ddathliadau yw cynal yn ystod y flwyddyn.

Ar y 23ain o Ionawr cynhaliwyd cyngerdd gan gôr merched Trefyrug o dan arweiniad Mrs Rosemary Ashman. Hi hefyd yw organyddes yr eglwys. Ar y 12fed o Fis Mawrth cafwyd cyngerdd gan Gôr Meibion Cwm Rhondda pryd y cafwyd datganiad o eitemau Cymraeg a Saesneg ag wrth gwrs “CWM RHONDDA” i ddechrau.

Mae yna eglwys arall rwyf wedi cyfeirio ati yn hanes William Evans sef y Capel Bach a adeiladwyd fel cangen i Eglwys Llantrisant ag yn ddiweddarach fe’i enwyd yn Sant Ioan Fedyddwyr. Hyd at y saithdegau cynhaliwyd gwasanaethau Cymraeg yn y Capel Bach a Saesneg yn yr eglwys newydd. Daeth ei hangen i ben yn y saithdegau a gwerthwyd yr adeilad ag erbyn hyn mae yn fan cyfarfod Sgowtiaid. Mae yna gofeb iddi yn eglwys Dewi Sant fel y gweler yn y llun.Pob bendith iddynt yn y dathlu bydd mwy am hyn eto.



**Eglwys Dewi Sant**



**Côr Meibion Cwm Rhondda**



**Y Capel Bach**

# YR HYBARCH WILLIAM EVANS TONYREFAIL.

Nid oes sicrwydd hollol am y dydd o'r mis y ganwyd William Evans. Yr oedd efe ei hun yn ystyried ei fod yn cael ei benblwydd ar yr 28ain o Ebrill. Ar y dyddiad hwn yn 1888 ysgrifennodd yn ei ddydd lyfr ei fod yn 93oed. Mae pob sicrwydd am flwyddyn ei enedigaeth, canys mae cofnodiad o'i fedydd yng nghofrestriad y bedyddiadau perthynol i Eglwys Llantrisant, fod wedi ei fedyddio ar Fehefin 30ain 1795. Nid yn y Llan modd bynnag ac nid gan offeiriad y plwyf y bedyddiwyd ef ond yn Garthgraban a chyflawnwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Richard Prichard mab hynaf Mr a Mrs Prichard Collena.

Hwn ydoedd y bedydd cyntaf i Mr Prichard weinyddu ynddo; yr oedd newydd dderbyn ei lawn urddau Eglwys Loegr. Oedwyd bedyddio y mab bychan o Garthgraban nes y byddai i hynny gymryd lle fel ag i Mr Prichard gael gweinyddu'r ordinhad. Yr oedd y rhieni yn awyddus am hynny, ac mae yn ymddangos fod mam anrhydeddus yr offeiriad ieuanc yn dymuno yr un peth, Roedd Mrs Prichard yn bresennol yn y gwasanaeth a thaerai fod y plentyn wedi ei aileni. Yr oedd cyfeillgarwch cynnes wedi ffynnu rhwng y teulu parchus o'r Collena a theulu Garthgraban a chofio fod mam y baban wedi gwasanaethu yn Collena am tua saith mlynedd cyn iddi briodi â David Evan.

Aeth yno tua amser y ganwyd Susannah, ac yr oedd wedi magu llawer arni. Cyflawnodd yr un gwasanaeth dros eraill o'r plant, yn enwedig Richard. Yr oedd nifer y teulu o'r Collena yn naw o blant – dau fab a saith merch. Y mab arall oedd y Parchedig Evan Prichard a fu am beth amser yn Offeiriad Ystradyfodwg ar Capel Bach Tonyrefail. Bu ef farw ar 29ain o Dachwedd 1827 yn 49oed. Ganesid ef gan hynny yn 1776, sef blwyddyn cyn ymadawiad Elisabeth Morgan o'r Collena i'w phriodi gyda David Evan o'r Rhagat. Bu 'r Parchedig Richard Prichard yn Ficer yn Llandaf am bymtheng mlynedd ar hugain. Bu farw ar y 6ed o Hydref 1856 pan o fewn dyddiau yn 84oed.

Enw un o'r merched oedd Susannah yr hon a fu farw ar yr 20fed o Ebrill 1790. yn 19eg oed, wedi bod chwe wythnos yn glaf o glefyd trwm, ond a ymadawodd mewn heddwch a llawenydd annrhaethadwy; ac i'r hon canodd y bardd anfarwol o Bantycelyn farwnad ychydig o fisoedd cyn ei farwolaeth ei hun, fel arwydd o'i gydymdeimlad â Mr a Mrs Prichard yn eu galar, ac o barch i goffadwriaeth eu merch ymadawedig. Rhoddwyd ei henw ar ferch gyntaf a anwyd yn Gathgraban ar ôl ei marwolaeth; ac mae yr enw Susannah wedi aros ar amryw o ganghennau y teulu o'r Garthgraban. Bu tair o ferched Collena yn byw yn ymyl Capel Y Ton ac fel Ladies y Ton yr adnabyddwyd, a buont yn ffyddlon i'r achos yn y capel ar y Ton er i'r ddau fab ddal at yr Eglwys wladol ond roedd ganddynt barch tuag at y capel.

Tyfodd William Evans i fyny yn blentyn bywiog a chyflym ac yn llawn chware. Nid oedd dim yn dianc ei sylw, ac yr oedd yn cofio pob peth, yn enwedig faterion y capel a'r pregethau. Gwelodd e'i dad fod rhywbeth anghyffredin yn y bachgen, a dysgodd iddo , pan oedd yn ifanc emynau Williams Pant Y Celyn ac adnodau o'r Beibl. Roedd yn cynal gwasanaeth yw chwaer fach a nithod iddo o Lantrisant, ac weithiau fyddai plant ei cymydog, Huw o'r Betw yn gwrando. Un tro wedi iddo roddi pennill allan i'w ganu, yn lle canu torrodd y gwrandawyr allan i chwerthin, ar hyn a barodd ir pregethwr bychan ddisgyn yn nwydwyllt o'i areithle i guro ei wrandawyr, fel (a defnyddio ei eiriau ei hun) ag i yrru y cythraul allan o honynt. Pregethodd lawer hefyd wrtho ei hun mewn lleoedd unig. Clywyd ef ei hunan yn adrodd iddo bregethu " yn grove Cae-derwen."

Yr oedd hefyd yn gantor rhagorol ym mron o'i febyd. Meddau ar lais mwyaf peraidd; ac yr oedd yn hoff o ganu darnau a ddysgodd ei dad iddo. Soniwyd amdano mewn cyfarfod o gynulliad o ieuenctid, cyfarfod o natur ysgafn a rhaid oedd i bob un gyfrannu mewn adrodd neu ganu, eithr nid oedd ganddo ddim o nodwedd ysgafn, eithr canodd ddarn o'r "Caniadau Duwiol," nes bod pawb yn wylo ac yntau yn wylo gyda hwynt.

Yr oedd yn arferiad yr adeg honno a pharhaodd am lawer o flynyddoedd, i aredig gydag ychen, a'i waith oedd arwain a chanu i'r ychen. Gwnaeth lawer o'r gorchwyl hwn ac yn ei gyflawni yn ddoniol a difyrrus iawn. Roedd ei fam wedi bod yn gwrandaw tu arall i'r clawdd, a dywedodd wrth ei phriod dan wylo, "Beth yn y byd a fydd y bachgen yma?."

Dygid i fyny ar y fferm gyda'r meibion arall, a dysgodd yntau holl gyfrinion amaethyddiaeth yn drwyadl. Felly penderfynodd ei dad roddi mwy o ysgol iddo na chawsai ei frodyr hynach.

# YSGOL GYMRAEG TONYREFAIL

Yn ystod y mis cynhaliwyd "Diwrnod Darllen" yn yr Ysgol. Bu hwn yn llwyddiant mawr ac yn help i fagu diddordeb mewn llyfrau. Cyfnewidiodd athrawon blynyddoedd 4 a 3 ddosbarthiadau yna mynd ati i ddarllen storïau i'r plant. Yn y cyfamser bu plant o flwyddyn 5 yn ymweld â'r adran fabanod ac yn darllen storïau iddynt hwy hefyd.

Mae'r plant wrth eu bodd o hyd gyda "Diwrnod Trwynau Coch", ac nid oedd y flwyddyn yma yn wahanol. Yn ystod y dydd casglwyd £110 i'r achos. Felly diolchwn i bawb a gefnogodd. Diolchwn hefyd i Fanc Barclays am wneud trefniant gyda'r gymdeithas rieni trwy law Mrs Sian Rees. Dywedodd am bob punt y byddai'r gymdeithas yn ei gasglu i'r Ysgol byddent hwy hefyd yn rhoi yr un swm. Felly pan wnaethpwyd elw o £548 yn cynnwys y raffl Gwyl Ddewi gwnaeth Mrs Rees yn siwr ei fod yn cael ei ddyblu gan y Banc y canlyniad oedd i gyfanswm yr elw ddod i £1096. Bydd hwn yn hwb mawr i'r Ysgol.

Cafodd y plant lwyddiant yn yr Eisteddfod Gylch hefyd. O dan 10 cipiodd Fflur Elin yr ail am lefaru "Fy Ystafell Wely". O dan 12 daeth Delun Jones yn 3ydd am ganu "Y Gwanwyn" a chyntaf am lefaru "Byrger Brain". Hefyd o dan yr oedran yma cawsom gyntaf am gyd lefaru "Cymon Reff". Diolchwn i Mr Danny Grehan am ddysgu y parti llefaru ac i'r athrawon am ddysgu'r gweddill. Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm pêl-droed ar ei llwyddiant yn nhwrnament Yr Urdd ac i Mrs V Porch ar gyrraedd penblwydd pwysig.



**Diwrnod Darllen yn yr Ysgol**

# Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

**Diogelwch y Ffordd.**
Cafwyd perfformiad bywiog yn yr ysgol ar ddiogelwch y ffordd. Mwynhaodd plant yr adran Iau a chafwyd hwyl.

**Rygbi.**
Llongyfarchiadau i dîm rygbi'r ysgol. Enillodd y tîm yn erbyn Ysgol Parclewis ar gae Yorkdale, Beddau. Da iawn, chi.

**Diwrnod Byd Eang y Llyfr. Dydd Iau, Mawrth 6ed.**
Dathlwyd y diwrnod hwn yn yr ysgol gyda gweithgareddau hwyliog i hyrwyddo llyfrau. Eleni gwisgodd y plant fel cymeriad o lyfr Cymraeg o'u dewis a chafwyd gwisgoedd lliwgar iawn.

Diwrnod Trwynau Coch, Dydd Gwener, Mawrth 14 eg- Gwallt gwirion.

Daeth y plant a rhai o'r athrawon a gwallt gwirion i'r ysgol ar y diwrnod hwn. Casglwyd £150 tuag at yr elusen haeddiannol yma. Diolch unwaith eto i rieni cefnogol Castellau.

**Ymweliadau.**
Aeth y plant Meithrin a Derbyn am dro i'r Swyddfa Bost yn y Beddau ac yn ystod Mis Mawrth bydd plant Blwyddyn 1 a 2 yn ymweld a'r garej lleol i arsylwi ar geir ac olwynion.
Cafwyd amser hwyliog hefyd pan ddaeth Paul Crowley,sydd yn gweithio gyda'r gwasanaeth ambiwlans ac yn ewythr i un o blant y Derbyn ag ambiwlans i'r ysgol. Roedd y plant wrth eu bodd yn arsylwi ar yr offer ac ymweld â'r ambiwlans. Diolch iddo am roi profiadau gwerthfawr i'r plant.

**Rhiant ar daith i Affrica.**
Daeth Ms. Gwen Jones mam Rhys ,Blwyddyn 2, i'r gwasanaeth i siarad am ei thaith ym mis Medi i'r Affrig i godi arian at elusen 'St. David's Foundation Hospice Care', drwy gerdded 10 diwrnod trwy'r 'Great Rift Valley', gan ddilyn llwybr llwyth y Masai. Daeth hi i'r ysgol i ofyn am gefnogaeth y plant. Bwriad yr ysgol yw gadael i'r plant wisgo dillad eu hunain i'r ysgol ar ddydd Gwener Mawrth 28 er mwyn codi arian tuag at y daith. Yn dilyn y daith bydd yr ysgol yn gwahodd Ms. Jones yn ol i'r ysgol i sôn wrth y plant am ei phrofiadau. Dymunwn pob llwyddiant iddi.



**Plant yr Adran Feithrin wedi gwisgo fel cymeriad o lyfr ar gyfer Diwrnod y Llyfr**

**Sioe Hetiau.**
Cynhelir ein sioe hetiau ar ddydd Mercher Ebrill 7 i blant y Feithrin a'r Derbyn am 2 o'r gloch yn Neuadd yr ysgol. Croeso cynnes i bawb.

Yn ystod wythnos olaf y tymor trefnir disgo i'r Adran Iau gan y

# Ysgol Heol y Celyn

**Croesawu a Ffarwelio**
Yn gyntaf y mis yma rhaid croesawu Mr Andrew Johnson i staff yr ysgol. Mae Mr Johnson yn dysgu blwyddyn 4 yr Adran Gymraeg yn lle Mr Rees, gan fod Mr Rees yn bennaeth dros dro. Rwy'n siwr bydd Mr Johnson yn hapus iawn gyda ni. Ond wrth groesawu un aelod o staff rydym yn ffarwelio ag un arall. Mae Mr Gareth Owen yn ffarwelio â ni ddiwedd y tymor yma i fynd yn ôl i'w gynefin i ddysgu ac i ddechrau ei yrfa fel dirprwy bennaeth yn Sir Fôn . Pob lwc iddo yn ei swydd newydd ac yn y dyfodol.

**Diwrnod y Llyfr**
Bu pawb yn brysur iawn yn yr ysgol yn dathlu `Diwrnod y Llyfr'. Roedd Radio Cymru yma am y bore yn recordio yn fyw. Roedd yr ysgol yn cymeryd rhan yn y Parti Llefaru mwyaf, yn ogystal â nifer o weithgareddau eraill. Roedd y plant wedi gwisgo i fyny fel eu hoff gymeriad o lyfr, roeddem yn gwerthu a phrynu llyfrau yn yr ysgol ble codwyd dros £100 i brynu llyfrau newydd i'r ysgol. Hefyd roedd plant yn adolygu llyfrau ar y we ac yn ysgrifennu cardiau post i gymeriadau o lyfrau, yn ogystal cafwyd cystadleuaeth yn yr ysgol o `Pa lyfrau mae'r athrawon yn eu darllen?' Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr gyda phawb wedi mwynhau yn ogystal ag arian wedi eu casglu tuag at yr ysgol.

Bydd rhai o blant yr ysgol yn mynd ar gwrs preswyl i Bentre Ifan ddiwedd mis Mawrth - clwstwr Rhydfelen; rwy'n siwr y bydd pawb yn mwynhau. Casglwyd dros £270 yn yr ysgol ar gyfer 'Comic Relief' drwy i bawb wisgo wig neu liwio eu gwallt.Da iawn pawb. Chwaraeodd tîm rygbi'r ysgol gêm yn erbyn Llanilltud Faerdref ble y bu iddynt fod yn llwyddiannus a ennill o 20-15. Da iawn nhw.

**Eisteddfod yr Urdd**
Yn olaf y mis yma rhaid llongyfarch yr holl blant a gymerodd ran yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir. Yn amlwg mae'r gwaith caled wedi talu gan fod nifer o eitemau wedi bod yn fuddugol a fydd yn mynd trwodd i Eisteddfod yr Urdd yn y Sulgwyn. Gyda'i gilydd mae 7 eitem yn cystadlu yn yr Eisteddfod sef y parti dawnsio gwerin dan 10 oed, y parti dawnsio gwerin o dan 12 oed, can actol ail iaith, adrodd i ddysgwyr rhwng 8-10 oed, y parti llefaru iaith gyntaf, y parti llefaru ail iaith a'r ymgom i ddysgwyr. Felly bydd y gwaith caled yn parhau gyda'r plant yma ar gyfer y brif Eisteddfod yn y Sulgwyn. Da iawn chi blant ag athrawon am eich gwaith caled a phob lwc i chi yn Eisteddfod yr Urdd.

# Ysgol Pont Siôn Norton

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Mrs Heledd Day ar ei phenodiad fel dirprwy bennaeth yr ysgol.

**Gwellhâd Buan**
Dymunwn wellhâd buan i Mrs Eluned Thomas, un o'n cynorthwywyr sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar. Rydym yn gweld dy eisiau di yn yr ysgol Eluned – brysia nôl.

**Ymweliadau Addysgol**
Aeth dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 1 am dro i Barc Ynysangharad yn ystod Mis Mawrth, fel rhan o'u hastudiaethau Daearyddol. Roedd hi'n ddiwrnod braf a chafodd pawb amser wrth eu bodd.

Bu Blwyddyn 3 a 4 ar ymweliad gwyddonol i'r Ganolfan Hanesyddol i geisio ehangu eu gwybodaeth am y sêr a'r planedau.

Aeth disgyblion Blwyddyn 5 i ganolfan MTTC i dderbyn profiadau gwyddonol fel rhan o brosiect 'Science Experience' i ysgolion.

**Eisteddfodau Cylch a Sir**
Dyma ganlyniadau yr Eisteddfod gylch a gynhaliwyd ar Fawrth 1af yn ysgol Cardinal Newman:
Llefaru dan 8 oed 2ail Levi Ball
Unawd 8-10 oed 2ail Paige Phillips
Llefaru 8-10 oed 3ydd Bethan Jones Arthur. Unawd 10-12 oed 1af Frances Bennett. Parti Unsain dan 12 oed 1af Ysgol Pont Siôn Norton. Côr Adran dan 12 oed 1af Adran Pont Siôn Norton. Parti deulais dan 12 oed 2ail Ysgol Pont Siôn Norton

Dyma ganlyniadau yr Eisteddfod sir a gynhaliwyd ar Fawrth 15fed yn Theatr y Coliseum, Aberdâr:

Unawd 10-12 oed 1af Frances Bennett
Parti Unsain dan 12 oed 1af Ysgol Pont Siôn Norton.
Côr Adran dan 12 oed 1af Adran Pont Siôn Norton
Cân Actol 1af Ysgol Pont Siôn Norton




**Cyngerdd Gŵyl Ddewi**
**Ysgol Feithrin Sardis**

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn yr eisteddfodau yma a dymuniadau gorau i'r enillwyr a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Nedd ac Afan ar ddiwedd Mis Mai.

**Diwrnod y Llyfr**
Dathlwyd 'Diwrnod y Llyfr' ar Fawrth 6ed yn yr ysgol drwy gynnal diwrnod gwisg ffansi. Daeth y disgyblion i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriad allan o lyfr. Gwelwyd gwisgoedd diddorol iawn gan y disgyblion a rhai o'r athrawon!

**Chwaraeon**
Cymerodd tîm pêl-droed yr ysgol ran yng nghystadleuaeth 7 bob ochr yr Urdd a gynhaliwyd ar safle'r 'astroturf' ym Mhontypridd. Cyrhaeddodd y bechgyn y rownd derfynol, ond yn anffodus colli wnaethant yn y funud olaf. Daliwch ati fechgyn! Mae'r tîm pêl-droed yn cael ei hyfforddi bob nos Fercher gan Mr. Prys Huws yng Nghanolfan Hamdden Abercynon.

Mae'r tîm rygbi wedi bod yn llwyddianus y tymor yma, gyda thri o'r aelodau wedi eu dewis i gynrychioli ysgolion Pontypridd yn y sgwad dan 11 oed. Llongyfarchiadau i Lloyd Jugessur, Liam Jay ac Owen Sheppeard.

Enillodd y tîm gystadleuaeth 10 bob ochr ardal Pontypridd ar ddechrau'r flwyddyn. Rydym yn aros yn eiddgar i weld pwy fydd ein gwrthwynebwyr yn y gemau terfynol cenedlaethol.

# PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:

**Bon Voyage**
Pob hwyl i Eiry Miles, merch Gareth a Gina, Parc Graigwen sy wedi mynd i Batagonia i weithio am dri mis.Bydd Eiry yn dysgu yno dros gyfnod mamolaeth Catrin Morris sy'n disgwyl ei hail blentyn. Caiff Eiry gyfle i ddysgu plant meithrin yn ogystal â dysgu Cymraeg i oedolion yn ystod ei hamser yn y Gaiman. Pob lwc!

**Pen Blwydd Hapus!!**
Mae dau o drigolion Graigwen yn dathlu penblwyddi arbennig eleni. Cafodd Gareth Blainey , Lanwood Road ei ben blwydd mis diwethaf a bydd Aled Thomas, Lan Close yn dathlu diwedd mis yma. 21 eto bois? Chi'n edrych yn dda!!

**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau i Karan ac Andy, Maesycoed ar enedigaeth mab bach,Luke. Pob dymuniad da oddi wrth bawb yng Nghlwb y Bont.

**Ysgol Feithrin Sardis.**
Cynhaliwyd cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi llwyddiannus gan blant yr ysgol feithrin.Canodd y plant yn eu gwisgoedd traddodiadol a chynhaliwyd raffl ar y diwedd. Casglwyd dros £150 ar gyfer y cylch. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Diolch hefyd i staff y feithrin am baratoi'r plant mor drwyadl.

# Argraffiadau cyntaf Eiry Miles o'r Gaiman – y penwythnos cyntaf

Mae Gaiman yn hallol wahanol i'r hyn ro'n i wedi ei ddisgwyl, er `mod i wedi gweld llawer o luniau o'r lle. Es i am dro ar fy meic newydd bore `ma, i gael golwg iawn ar y lle, a ches fy synnu wrth droi pob cornel. Mae'r adeiladau i gyd mor fach, a llwch a chŵn ym mhobman. Ond mae'n hardd iawn hefyd. Neithiwr, aeth Edith (chwaer Elvey Macdonald) â mi i ben y bryn tu ôl i'r tŷ. Roedd hi fel bod ar y lleuad, gan fod yr haul i'w weld mor agos a'r tir i gyd mor ddiffaeth. Does `na ddim cymylau yn yr awyr o gwbwl, ac mae'r sêr i gyd yn hollol eglur.

Ddoe, ces i ginio efo Juan a Rebecca Davies a'u plant (neu Sion fel mae pawb yn ei alw o, fo oedd yn siarad ar `Wish You Were Here' ), a hen wraig o'r enw Marta Rees sy'n cadw tŷ te Plas y Coed (dydy hi ddim yn siarad llawer o Gymraeg). Aethon ni i le o'r enw Dyffryn Gwirdd(sic) - lle braf iawn, a lot o blant yn chwarae ar y llawr, a Nia, merch fach y ddau wrth ei bodd efo'r tedi roddais iddi. Maen nhw'n bobl hyfryd, ac fe fynnon nhw dalu am bob dim. Does dim cefndir Cymraeg gan Rebecea o gwbl, ond mae hi wedi dysgu Cymraeg yn rhugl ac yn rhedeg ysgolion meithrin yn y cylch, ac yn dysgu cerdd i blant ag anghenion arbennig.

Doedd `na ddim bwydlen yn y lle bwyta - roeddech chi jyst yn deud beth roeddech chi eisiau. Ces i salad bendigedig efo cnau a betys - mae eu llysiau nhw'n anferth ac yn llawer mwy blasus nag yng Nghymru. Mae lot yn cael trafferth dallt nad ydw i'n byta ham a chyw iâr ond maen nhw'n glen iawn! Ar ôl cinio, es i draw i'r Gimnasio, ble roedd te a chyngerdd yn cael eu cynnal. Roedd pob math o gacennau wedi eu paratoi a phentyrrau o fara menyn a jam cartre a chaws. Mae gan yr Archentwyr ddant melys a maen nhw'n rhoi `dulce de leche' (jam llaeth) yn lot o bethau. Dw i wedi prynu jar ohono fo, ac



i Eiry Miles. © vividphotos.tripod.com

mae o'n reit flasus ond yn sicli ar ôl tipyn.

Ro'n i'n eistedd ar fwrdd efo hen bobl, ond roedd siarad efo nhw yn ofnadwy o ddiddorol. Roedd un ddynes, Erie James (cafodd ei henwi ar ôl llwyth brodorol) wedi bod yn byw yn Buenos Aires am 30 mlynedd cyn dod nôl i'r Gaiman ddeng mlynedd yn ôl, ond roedd ei Chymraeg hi'n wych ac roedd hi'n ddynes ffraeth iawn. Roedd teuluoedd y rhan fwyaf ohonyn nhw'n dod o Dreorci ac Aberpennar.

Mwynheuais i'r cyngerdd yn fawr - yn enwedig y dyn oedd yn canu tango. Ond roedd rhywbeth rhyfedd iawn am wylio plant yn dawnsio gwerin, a hithau'n 35 gradd y tu allan a bron pawb yn siarad Sbaeneg. Ond yn ôl rhai, doedd y te ddim mor llawn ag arfer, gan fod llawer yn methu fforddio dod i bethau rwan, ac roedd llawer o fwyd ar ôl a'r caws i gyd wedi toddi.
Dw i'n meddwl y bydd disgwyl i mi ymuno â'r côr, ond mae'n siwr y bydd yn hwyl os na fydd gormod o ganu emynau! Maen nhw'n griw neis a lot o'r rhai ifanc wedi dysgu Cymraeg yn dda er nad oes cysylltiadau Cymreig ganddyn nhw o gwbwl. Yn bendant, mae'r ysgol gerdd wedi bod yn bwysig iawn i ennyn diddordeb pobl yng Nghymru.

Roedd un ferch, Elisabeth, newydd ddod nôl o gwrs dwys yn Llanbed ac yn gobeithio mynd i weithio fel nani yng Nghymru cyn hir. Gofynnodd hi os o'n i am fynd i'r Davarn Las neithiwr - roedd hi'n bwriadu mynd erbyn 1 y bore. Ro'n i isio mynd yn ofnadwy, ond ar ôl gorwedd lawr i orffwys, mi syrthiais i gysgu. Triais i gael siesta heddiw ond ro'n i'n hollol effro - bydd yn rhaid i mi arfer efo'r oriau gwahanol achos mae'n debyg y bydd lot o'r gwersi o 9-11 y nos!

Ces i ginio blasus efo Edith Macdonald a'i teulu heddiw ar ôl bod yn y capel efo nhw. Roedd hi wedi cael empanadas soya yn arbennig i mi - dydy hi ddim yn bwyta llawer o gig ei hun, yn enwedig yn y gwres `ma, ac mae plant Elvey Macdonald yn vegans (diolch byth mai yng Nghymru maen nhw'n byw!)

Fory, bydda i'n cael cyfarfod efo'r tiwtoriaid eraill i drefnu fy amserlen, a bydda i'n gweithio ar stondin Gymraeg yn y ffair amaethyddol ddydd Sadwrn. Dw i wedi cael gwahoddiad i ginio Cymdeithas Dewi Sant Trelew y penwythnos wedyn, ac yn gobeithio mynd i weld y pengwinod cyn hynny! Gewch chi fwy o'n hanes i cyn hir. Mae hi wedi oeri erbyn hyn (heddiw oedd diwrnod poetha'r flwyddyn!) felly dw i am fynd am dro i dynnu lluniau efo fy nghamera newydd.

Cofion gorau
Eiry Miles

## MEDDALWEDD CYMRAEG

Mae yna doreth o ddeunydd cyfrifiadurol Cymraeg i'w gael oddi ar safle gwe www.meddal.org.uk gan gynnwys porwyr megis Netscape, y chwaraeydd cerddoriaeth Winamp, y prosesydd geiriau Abiword, ac ati.

Nawr mae ffeil iaith Cymraeg ar gael ar gyfer porwr gwe Opera 7. Er mwyn paratoi ar gyfer y pecyn iaith swyddogol gan Opera (www.opera.com) mae'r ffeil iaith yn cael ei gynnig i ddefnyddwyr er mwyn ei phrofi.

Mae Opera 6.05 cyflawn Cymraeg dal ar gael o safle Opera ac mae modd ei llwytho i lawr o'r fan honno.

Er mwyn cael gafael ar ffeil iaith Opera 7 ewch i safle
www.meddal.org.uk
a dilyn y cyfarwyddiadau.

# YSGOL CREIGIAU

**Croeso nôl**
Croeso nôl i Mrs Tewkesbury ar ôl cael babi o'r enw Harri.
Hwyl fawr i Miss Jenkins a briododd ar y cyntaf o Fawrth a chroeso nôl i Miss Jenkins wps! Mrs Willis (sef Miss Jenkins gynt).

**Diwrnod Llyfr**
Daeth llawer o blant a'u hoff lyfr i'r ysgol a chafodd pob athro ac athrawes gyfle yn ystod y dydd i siarad gyda nhw amdanynt. Ar ddiwedd y dydd cafodd pob plentyn docyn llyfr gwerth £1 i'w wario cyn diwedd y mis.

**Diwrnod y trwynau coch**
Fe wnaeth Class 7 fagnedau trwynau coch a'u gwerthu am 30c yr un. Fe godon nhw £70. Hefyd i godi arian fe wisgodd pawb yn yr ysgol wigiau a gwallt gwirion. Diwrnod i`w gofio oedd e, ac fe godom ni £653.90 i gyd.

**Pêl-rwyd**
Fe chwaraeodd y tîm pêl-rwyd ddwy gêm gyfeillgar yn erbyn Ysgol Eglwys Newydd. Fe enillon ni un gêm a cholli'r llall. Yn y gêm enillon ni, y sgôr oedd pum gôl i bedair. Yn y gêm gollon ni, y sgôr oedd pum gôl i un i'r Eglwys Newydd. Hefyd fe chwaraeon ni gêm gynghrair yn erbyn Danescourt ac ennill o bum gôl i un.

**Pêl-droed**
Fe chwaraeodd y tîm pêl-droed gêm yn erbyn Radur. Chwaraeon nhw gêm dda, ond yn anffodus fe gollon ni 3-1.Fe chwaraeodd y tîm pêl-droed mewn twrnament lawr yng Ngerddi Sophia. Cystadleuaeth Cwpan Canmlwyddiant Caerdydd oedd hon ond yn cynnwys tîmau o dde-ddwyrain Cymru.Yn y rownd gyntaf fe chwaraeon ni bedair gêm. Fe enillon ni’r gêm gyntaf a dod yn gyfartal yn y tair gêm olaf. Yn y rownd cyn-gyn-derfynol fe chwaraeon ni bedair gêm ac aethon ni drwodd i'r rownd gyn-derfynol. Fe enillon ni y gêm yn y rownd yna ond yn anffodus collon ni’r gêm derfynol yn erbyn Ysgol Baden Powell.

**Yr Heddwas**
Fe ddaeth Cwnstabl P.C. Jones i'r ysgol i siarad am ddieithriaid a'n ymddygiad tuag atynt. Daeth â fideo i ni wylio yn y dosbarth. Roedd yn atgoffa ni yn fawr am beth y dylen ni ei wneud a beth ddylen ni ddim ei wneud mewn sefyllfa anghyfforddus â dieithryn. Mwynhaodd plant y Babanod wrando ar P.C. Jones yn siarad am wisgoedd a gwaith pobl yr heddlu yn y nos a'r dydd. Fe fwynhaodd yr Adran Gymraeg i gyd ymweliad P.C. Jones a gobeithiwn ei weld eto yn y dyfodol.

**Cymdeithion Creigiau**
Fe aeth plant y côr i ddiddori aelodau Cymdeithion Creigiau yn Neuadd yr Eglwys. Canodd y côr gymysgedd o emynau a chaneuon hwyliog i'r cymdeithion a mwynhaodd y plant i gyd yn fawr - yn enwedig y sudd oren a'r bisgedi!

**Eisteddfodau**
**Eisteddfod yr ysgol.**
Ddydd Gwener yr 28ain o Chwefror cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol unwaith eto i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant. Eisteddfod fendigedig oedd hi eleni. Cystadlodd pawb yn yr ysgol rywbryd yn ystod y dydd a mwynhaodd pawb yn fawr iawn. Yn ein tai (Collwyn-melyn, Iestyn-glas, Einion- gwyrdd, Gwrgant-coch) bu'r grwpiau llefaru, canu ac offerynnol yn perfformio. Ar ddiwedd y dydd tŷ Gwrgant oedd yn fuddugol.

**Canlyniadau Eisteddfod Gylch yr Urdd i'r ysgol:**
Cyntaf
Canu dan 12 Nicky Williams Llefaru dan 12 Catrin Herbert
Llefaru i ddysgwyr dan 12 Jessica Simmons Llefaru i ddysgwyr dan 10 Thea Lawson Llefaru i ddysgwyr dan 8 Hannah Stone Unawd chwythbrennau dan 12 Robert Morgan Côr dan 12. Parti deulais dan 12

Ail.
Canu dan 10 Jess Horsey. Canu dan 8 Joshua Morgan Llefaru dan 8 Joshua Morgan. Llefaru dan 12 Nicky Williams. Llefaru i ddysgwyr dan 12 Rebecca Fawell.



**Carly Latcham ac Emyr Honeybun yn cartio yn Llandow**

Llefaru i ddysgwyr dan 10 Hayley Morgan. Llefaru i ddysgwyr dan 8 Callum Basset Jones. Unawd pres dan 12 Gareth Rosser.
Unawd piano dan 12 Ffion O'Brien. Grwp llefaru dan 12.

Trydydd
Canu dan 12 Robert Morgan. Canu dan 10 Rhys Kelly. Canu dan 8 Aled Herbert.
Unawd pres dan 12 Catrin Herbert. Unawd piano dan 12 Geraint Herbert. Unawd telyn dan 12 Geraint Herbert.

**Canlyniadau yr Eisteddfod Sir**
Cyntaf
Canu dan 12 Nicky Williams. Llefaru dan 12 Catrin Herbert
Unawd chwythbrennau dan 12 Robert Morgan. Llefaru i ddysgwyr dan 12 Jessica Simmons Llefaru i ddysgwyr dan 10 Thea Lawson. Llefaru i ddysgwyr dan 8 Hannah Stone. Dawnsio gwerin dan 10

Ail Côr
Trydydd Parti deulais

**Clwb Garddio**
Mae'r gwaith ar ardd yr ysgol yn mynd ymlaen yn dda iawn. Mae plant athrawon a rhieni wedi bod yn gweithio'n galed iawn i orffen gardd y gors a mae gwaith ar fin dechrau nawr ar ardd glan y môr.

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

**F1 yng Nghreigiau?**
Gan bwyll bois! Oes `na Michael Schumacher neu Jenson Button yn ein plith? Mae Carly Latcham (Blwyddyn 6 Creigiau) ac Emyr Honeybun (Blwyddyn 7 Plasmawr ) yn rasio gyda'i gilydd yn y clwb cartio yn Llandow.

Mae Carly wedi bod yn cartio ers Mis Awst diwethaf ac mae hi wedi pasio'i phrawf gyrru er mwyn cael trwydded i rasio. Mae hi'n cymryd rhan yn yr Honda Cadets a nawr mae hi hefyd yn teithio o gwmpas y wlad i gystadlu ym mhencampwriaeth genedlaethol Swper Dau! Lwcus bod ei thad Gwyn hefyd yn cystadlu ac yn deall sut i drin yr injan a newid yr olwynion, ond mae Carly yn dysgu n gloi! !

Mae Emyr newydd orffen yn yr ysgol gartio lle enillodd e gwpan am ddod yn ail. Nawr mae'n rhaid iddo fe gymryd y prawf er mwyn symud ymlaen hefyd. Dwi wedi clywed si bod Jonathan hefyd yn cymryd y prawf cyn bo hir!

**Brownies 1af Creigiau**
Cynhaliwyd Bring & Buy llwyddiannus iawn gan y Brownies ym mis Mawrth i godi arian i apêl Blue Peter. Casglwyd £220 i'r apêl sydd eleni yn mynd i helpu pobl yn Affrica cael dwr glan i yfed. Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i helpu a chefnogi.

**Merched dawnus**
Llongyfarchiadau i Victoria Barrington, Gwen Thomas a Llinos Honeybun ar basio arholiad dawns fodern gradd un. Mae'r merched i gyd yn mynd i ysgol ddawnsio Sybil Marks yng Nghaerdydd.

**Llwyddiannau cerddorol!**
Llongyfarchiadau i'r brawd a chwaer Geraint a Catrin Herbert ar lwyddo yn eu harholiadau cerdd yn ddiweddar. Geraint yn ennill gradd 3 efo anrhydedd ar y delyn a gradd 2 ar y ffliwt, tra bo Catrin yn sicrhau ei gradd 2 hithau yn ei harholiad piano. Da iawn wir y ddau ohonoch!

# YSGOL EVAN JAMES

www.ysgolevanjames.co.uk

**CROESO, CROESO 'NÔL A FFARWEL**
Croeso a dymuniadau gorau i Nicholas Daniels, sy'n dechrau'i swydd yn Yr Adran Iau ar ôl Y Pasg. Croeso 'nol i Rhian Ratcliffe a Rhianon Kennard, sy' wedi dychwelyd ar ôl cyfnod mamolaeth ac i Frances Charles, sy' wedi cael triniaeth yn yr ysbyty. Ffarwel a phob hwyl i Annadele Evans yn Ysgol Gymraeg Heol-y-Celyn, i Bethan Jones – edrychwn ymlaen at ei chroesawu hi 'nol yn nhymor yr haf, ac i Sian Watts yn Ysgol Gymraeg Llantrisant. Llongyfarchiadau i Sian a Richard ar eu priodas ym mis Ebrill.

**EISTEDDFODAU**
Diolch o galon i Pedr McMullen am fod yn feirniad yn Eisteddfod yr ysgol. Llongyfarchiadau i bawb aeth ymlaen i Eisteddfod Cylch Yr Urdd a dymuniadau gorau i Carwyn Geraint Rees fydd yn canu'r unawd dan 10 yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd.

**DIWRNOD Y LLYFR**
Cafodd y dosbarthiadau derbyn hwyl a sbri wrth fynd draw i Lyfrgell Pontypridd i weld Sali Mali a gwrando ar stori. Bu pob dosbarth yn yr ysgol yn brysur yn trafod, darllen a gwneud gweithgareddau eraill yn gysylltiedig a'u hoff lyfr.

**TEITHIAU**
Aeth Blwyddyn 6 i'r Miwni i wneud gwaith ar y ffilm "Shrek" (a mwynhaodd Mr. Lloyd a Mr. Thomas y ffilm!) ac aeth y plant hefyd i Orsaf Bŵer Oldbury yn Sir Gaerloyw i weld sut mae trydan yn cael ei gynhyrchu.

Aeth Blwyddyn 4 a 5 mewn cwch o amgylch Bae Caerdydd fel rhan o'u gwaith Daearyddiaeth; ac aeth pump o'r disgyblion i Bentre Ifan yn Sir Benfro : Lauren Bartlett, Gwilym Batista, Mathew Kidner, Lee Westcombe a Tyler Wyman. Diolch i Meinir Morris am fynd â nhw.

Aeth Blwyddyn 3 a 4 ar daith i Ganolfan Glyncornel yn Y Rhondda i chwilota am bryfed bach yn y goedwig fel rhan o'u gwaith Gwyddoniaeth.

**CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON**
Trefnodd y Gymdeithas bod Martyn Geraint yn diddanu'r plant yn neuadd yr ysgol a bydd Martyn yn canu eto mewn 'Noson i'r Teulu' yng Nghlwb Rygbi Pontypridd. Diolch i'r Gymdeithas am eu gwaith caled yn codi arian i'r ysgol.

**CHWARAEON**
Mae tîm pel-droed yr ysgol wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan Clwb Caerdydd a thîm rygbi'r ysgol wedi cyrraedd rownd gyn-derfynol Cwpan Ysgolion Pontypridd. Pob hwyl i'r ddau dîm.

Chwaraeodd wyth o fechgyn tîm pêl-droed Graigwen ar Barc Ninian yn ystod hanner amser y gîm rhwng Caerdydd a Notts County ar Fawrth 8fed – dyna lwcus!

Collodd tîm pêl-rwyd yr ysgol yn erbyn Ysgol Maesycoed yn rownd gyn-derfynol Twrnament Yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Rhydycar.

**CHWARAEON Y DDRAIG**
Mae'r ysgol yn un o ysgolion swyddogol Chwaraeon Y Ddraig ac mae plant o flynyddoedd 4, 5 a 6 wedi bod mewn sesiynau pêl-rwyd ac athletau ar nosweithiau Mercher yn yr ysgol. Bu Prifysgol Morgannwg yn rhan o'r cynllun yn ddiweddar a chynhaliwyd Gŵyl Chwaraeon yn Y Brifysgol gafodd ei threfnu gan y myfyrwyr. Cafodd pawb ddiwrnod ardderchog.

# CYSTADLEUAETH IOLO MORGANWG 2003

## Detholiad o'r cerddi buddugol yn y gystadleuaeth a feirniadwyd gan Llion Roberts

Blwyddyn 7: - **Ail**:

Un Noson

Un noson methais gysgu,
A chodais allan o'r gwely,
Cerddais ar draws yr ystafell,
A thynnais nôl y llenni.

Yno yn disgleirio
Roedd lleuad melyn mawr,
Ac yn yr ardd tu allan,
Yn sydyn gwelais gawr!

Roedd ganddo freichiau hirion
A bysedd cul a hir,
Yn chwifio arna'i ac yn chwerthin,
Gan wneud cysgod ar y mur.

Wedyn dechreuodd wichian
A theimlais fy ngwaed yn troi'n oer,
Beth oedd yn digwydd tu allan,
Tu allan dan y lloer?

Ond wrth i'm llygaid syllu
Dechreuais wenu'n llon,
Wrth weld taw coeden oedd yno
A thylluan yn canu o'i bron!

Gwenan Evans
Ysgol Gyfun Llanhari

Blwyddyn 8 a 9: - Ail

Ddawns

Tawelwch.
Y llenni'n codi a hithau'n llamu i'r llwyfan,
Yn ffrwydriad egnïol o rhythm.

Traed yn pwyntio,
Breichiau'n ymestyn,
A phob cyhyr wedi'u tynnu'n dynn.

Ei chorff yn gwibio drwy'r awyr,
Fel hwyliau yn y gwynt.

Tawelwch.
Clustiau'n ymdrechu i glywed y nodau tyner, tawel,
Ei chorff gosgeiddig yn ymestyn yn esmwyth.

Y cyffro'n codi,
A hithau'n llamu,
Pob cyhyr yn ehangu.

Y gynulleidfa'n syllu'n stond mewn rhyfeddod pur.
Tawelwch.
Y llenni'n cau.

Sara Williams
Ysgol Gyfun Glantaf

Blwyddyn 7: - Trydydd

Un Noson

Un noson fe roddais fy nant
yn saff o dan fy ngobennydd.
Deffrais yng nghanol y nos
i weled golygfa ysblennydd.
Gyda blaen fy nhrwyn
ar y ffenestr oer,
gwelais dylwyth teg
yng ngolau'r lloer
yn dawnsio'n llon o amgylch yr ardd
pob un â mwclis o ddannedd hardd.
Ai'r arallfydol
yn fy myd dychmygol?
Ai'r cyfan yn fy mhen breuddwydiol?
Ac yna diflannodd y dawnswyr
mewn cawod o wreichion hud.
Pwy felly adawodd yr arian?
Mae'r ateb tu hwnt i'n byd.

Lewys Isaac
Ysgol Gyfun Rhydfelen

Blwyddyn 8 a 9 - Trydydd

Ddawns

Diffoddwch y golau,
Caewch y drws.
Nos Sadwrn 'di dod
Efo Rhythm a Blues.

Dangoswch eich symudiadau,
Chwythwch pawb o'r llawr,
Fel corwynt cryf a ffyrnig,
All neb eich stopio nawr!

Chi yw brenhines y disco
O dan y golau fflachio,
Hip-hop neu roc a rôl,
Mae unrhyw fiwsig yn eich plesio.

'Pwy yw hi 'te?'
sibrydiai pawb,
wrth iddi eu pasio
fan hyn a man draw.

Ond er ei thalent mwyaf,
Ni all neb anwybyddu
Ei bod mewn Cadair Olwyn!

Rachael Griffiths
Ysgol Gyfun Rhydfelen

**Blwyddyn 10 a 11—Ail**

Eiliad

Ffrwydrad enbyd mewn fflach o amser
yn Hiroshima.
Cancr yn cydio'n y cyrff
a'r cof . . .

Hitler yn lladd y freuddwyd
gyda llofnod,
yn crogi marwolaeth yr Iddewon.

Yn Alabama, mae 'na wal goch,
yn garped gan Dduw i arwr,
a gydiodd mewn gweledigaeth,
ond mae'n gas gan rai y gwir.

Pasio rhwng y marw a'r byw
wnaeth y Meseia.
Pam dychwelyd i'w
deyrnas ddidrugaredd o ddynion?

Awyren un prynhawn,
lwyddodd i gyhuddo miloedd draw yn y Dwyrain.
Ond cyhuddiad heb drosedd,
a'r gosb heb achos.

Arweinwyr yn lofruddwyr,
wrth y llyw fel plant amddifad ar goll heb Dduw,
yn ddall heb y llaw i Afallon.

Y tiroedd diffrwyth yn fynwentydd di-derfyn,
un ergyd mewn rhyfel,
a thon o ddinistr yn dilyn o ddwylo crynedig,
yn creu beddau i'w brodyr.

Pa obaith sydd, tra bod offerynnau marwolaeth
yn angylion i achub y byd?
Gwledydd yn gŵn gwyllt,
un botwm i ddileu cymydog.

Un eiliad mae'n cymryd i ddenu gwên,
un eiliad i ladd dynol ryw,
Eiliadau yw hanes yr andros o gread,
ond mae eiliad yn para am byth.

Ffion Rolph
Ysgol Gyfun Plasmawr

**Blwyddyn 12 a 13 - Ail**

**Tawelwch**
**(Marwolaeth fy Mamgu)**

Wedi loes yr ymladd
Daeth bendith caled i'n byd,
A thawelwch dy gri dewr
I hedd dy lygaid di.

Cofiaf ddringo'r gobaith
A drodd yn brudd-der 'r un dydd,
Yr hiraeth am dy fywyd
Yn fyw yn fy nghalon i.

Ond ar nos dy frwydr
Daeth llef yr arfau i ben,
A'r dur yng ngosteg heno'n
Aden i 'ngalar i.

Ruth Davies
Ysgol Gyfun Plasmawr

Blwyddyn 7: - Trydydd

Un Noson

Slip o bapur yn fy llaw
Pwy a ŵyr beth a ddaw?
Rhifau lwcus dan fy nhrwyn,
Tyrd Eamon, gwna dy swyn!

Pêl un, dau a thri
hanner ffordd – dyma ni!
pedwar, pump – gweiddi nawr
chweched pêl? Miliwn mawr?

Chwysu chwartia – dyma hi
fy rhif gorau – tri deg tri!
Un noson dyma fo!
Mega miliwn hei-di-ho!

Lowri Kenny
Ysgol Gyfun Llanhari

**Blwyddyn 12 a 13 - Ail**

**Tawelwch**

'It was something quite special, that feeling: an oppressive hideous constraint as if I were sitting with the small ghost of somebody I had just killed.' Vladimir Nabokov, *Lolita*

Mewn tawelwch y cyflawnwyd y ddefod
A dim ond ochain anghelfydd y ferch
Yn gefnlen i'r weithred wawraidd.
Distawrwydd, tremu traethau eu llygaid,
Daw'r tawelwch ac wedyn wenwyn ei gwên
yn gorlifo'n gŵyn dros ei galon ef.
Yr oedd Angerdd yn rhy hwyr yn amgyffred
Ei dramgwydd, ei drosedd drosti.
Talfyrru'i babandod; torri Ofn.

Cyn i'r ddefod ddarfod arnynt
Antur anobaith oedd i Angerdd
Gael cyffwrdd, cyffroi a thoddi ei eilun.
Ond, wedi bod ac wedi mynd, sylwi wna
Ar ei chysgod; yr ysbryd llwyd
Yn gwenu fel llidiart gloyw.
Difaru difa (lladd ar flas llaeth 'mam')
Wna Angerdd.

Yr oedd Ofn yn eilun parod;
Ei llygaid yn gofyn i gof guro'r dur yn galetach,
Ei llais yn cathlu fel pia pur,
'Tyrd ataf, addola fi.'
Ond i gysegru trwy'r ddefod yr eilun hwn
Oedd i daflu tros Ofn orthrwm dychrynllyd.
Heb ei thorri yr oedd taflu pêl i wala
Ar brynhawn llawn haul yr Haf.
Ond byth eto – wedi iddi dderbyn Angerdd –
Byddai gwên llidiart ei chysgod llwyd yn dal pêl.

Trafferth Angerdd oedd ef ei hun;
Y chwant yn chwyddo'n epil ynddo,
Artaith yr eisiau eithaf.
Gwth brau yn gwthio,
Tryni o'i fewn yn tynnu.
'Tyrd ataf, addola fi.'
Petai ond wedi gwadu'r pia.

Roedd y bai anochel ar dawelwch.
Tawelwch y weithred.
Tawelwch Angerdd.
Tawelwch Ofn.
Y Drindod amherffaith yn gorwedd
Ymhlith aelodau llipa eu cyrff.
Distawrwydd yn griddfan.
Euogrwydd tawel Angerdd.
Gorfoledd cudd Ofn.

Yn oriau newydd y bore
(Pan fo'r lleuad yn las a'r awyr yn writgoch)
Doedd dim geiriau.
Yr oedd gan Angerdd Ofn yn ei freichiau
A'i chroen yn arw oer,
Ac roedd gan Ofn Angerdd yn ei gorchuddio
A chraith y lladd yn chwyddo o'i fewn.

Gwelsai Ofn ddim ond cariad hen ddyn hybarch,
Gwelsai Angerdd ddim ond rhith ei rith.

'Tyrd ataf, addola fi.'

Alex Clatworthy
Ysgol Gyfun Plasmawr

**Blwyddyn 10 a 11 - Trydydd**

**Eiliad**

Dechreuodd bywyd mewn eiliad,
Gorffennodd bywyd mewn eiliad,
Eiliad yw oes,
Oes yw eiliad.

Eiliad o gynnwrf,
Eiliad o berygl annaturiol.
Bywyd heb gariad,
Bywyd llawn anobaith,
Heroin i lenwi ei meddyliau,
Heroin i ganiatáu hapusrwydd.

Anobaith a'i harweiniodd at Heroin,
Mewn eiliad collodd ei Rhyddid,
Mewn eiliad collodd ei bywyd.

Hapus i gymryd Heroin,
Felly hapus i farw oedd hi.
A oedd hi?

Eiliad oedd ei bywyd,
Eiliad a'i collodd.

David Tabor
Ysgol Gyfun Llanhari



**Blwyddyn 8 a 9: - Ail**

**Y Ddawns**

Fe'n ganwyd ni i'r ddawns
O'r tywyllwch i'r goleuni,
O'r tawelwch i naid y nodau,
A'r ddawns yn simffoni o brofiadau –
Y gwenu, y rhannu, y caru a'r cystadlu.
Y mentro, y temptio a'r galon ddewr yn llamu
I guriad y ddawns.

Ac yna'r nos yn cau,
A'r golau yn pellhau,
A'r traed yn arafu,
A'r nodau'n tawelu,
A'r ddawns ond yn atgof o'r amser a fu.
Ond cyn i'r nos fy llyncu
Sylweddolaf y bydd dawns eto
Yfory
Hebof fi.

Siôn Davies
Ysgol Gyfun Glantaf

**Blwyddyn 12 a 13—Trydydd**

**Tawelwch**
**(Wedi i fywyd fynd yn drech na'r briodferch)**

Megis trempyn yn troi at botel,
– am fod bywyd yn atsain o dan gyfyngder grym y geirie,
Hithau'n cysidro rhoi'i byd am fyd yr ochr arall.
Dihangfa.

Pellter hwy rhwng dwy galon oedd
na ehangder dallineb rhwng gelyn a gelyn.
Nid oes gair na gwres mewn gwactod –
all gynnau un fflam a chynnal fflam y llall.

Dyfnach fyth y creithie lle bu dagre drud yn sgrechian ar rudd,
Gwrid gwreichion yn tasgu,
Amddifad fu gwrid serch.

Mor urddasol ar ddydd ei phriodi;
Dwy forwyn – dwy ddeilen yn gwenu ar flodyn.
Ceisiodd gariad oedd dan glo;
A'r allwedd ar goll yn ei cholled.

Wylo'n unig ar wely oer am wres,
Anffawd creulona' bywyd.
Blode ei dydd hi yn flode 'Er Cof',
Cydwybod rhai sy'n chwysu.

Llofrudd mud yw torcalon,
Ymbiliaf nawr iddi orffwys mewn hedd.
Mae swnian cyfiawnder o hyd ar ein clyw – ond;
Tawelwch byddarol, yw bywyd y bedd.

Catrin Middleton
Ysgol Gyfun Plasmawr

**TLWS BARDDAS I FEIRDD YSGOLION UWCHRADD**
Mae'r gystadleuaeth yn agored i ddisgyblion bl 7 - 11 (11 - 16 oed).
Gyrrwch eich cerddi i:
Andrea Parry, Glandwr, Heol Tegid, Y Bala. Gwynedd LL23 7EN.
Dylid cynnwys enw'r bardd, oedran/blwyddyn ysgol, cyfeiriad a rhif ffôn yr ysgol. **Dyddiad cau: 25 Mehefin 2003.**

# FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

**CANNOEDD YN GALARU AM 'FERCH HYFRYD'**
Mae cannoedd o alarwyr wedi talu teyrnged i "ferch hyfryd" gafodd ei lladd mewn damwain ger Ffynnon Taf.

Yn gynt ym mis Mawrth bu farw Karla McCauley, 15 oed, o Grangetown, Caerdydd, pan darodd y car yr oedd yn teithio ynddo i gyfeiriad Caerdydd rwystr ar ffordd ddeuol yr A470. Cafodd ei thaflu o'r car a'i tharo gan gar oedd yn teithio i gyfeiriad Pontypridd.

Yn Eglwys y Santes Fair, Trebiwt, Caerdydd, ar Fawrth 20 dywedodd y Tad Graham Francis fod Karla, oedd yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Fitzalan, yn ferch hyfryd. "Mae cwmwl galar a thristwch wedi disgyn oherwydd ei marwolaeth drychinebus," meddai. "Ond mae eich cariad at Karla yn para a bydd yn eich cryfhau yn y dyfodol." Ceffyl dynnodd y cerbyd du oedd yn cludo arch wen Karla.

**AIL APÊL I LOFRUDD**
Mae'r dyn gafodd garchar am oes am lofruddio Geraldine Palk wedi apelio yn erbyn ei ddedfryd.

Er y gwrthodwyd cais apêl Mark Hampson, gosodwr carpedi o Ffynnon Taf, mae wedi gwneud cais arall a disgwylir y bydd y Llys Apêl yn Llundain yn gwrando ar ei gais ym Mai.

Cafodd y dyn lleol 35-oed garchar am oes am iddo lofruddio'r clerc 26-oed o'r Tyllgoed, Caerdydd, dridiau cyn Nadolig 1990.

Roedd y Cynghorydd Max Phillips yn aelod o Grŵp Cyswllt Cymunedol y sefydlodd yr heddlu. "Y gred gyffredinol yw bod y ddedfryd yn gywir a bod cyfiawnder wedi ei weinyddu," meddai. "Pe bai'r holl beth yn codi eto, byddai'n ysgwyd y teulu."

**CWMNI LLEOL MEWN CYNLLUN £6M**
Mae cwmni lleol wedi cyhoeddi y bydd yn chwarae rhan amlwg mewn cynllun Amcan Un gwerth £6m.

Bydd yr ymgynghorwyr busnes SCT o Nantgarw'n creu hyd at 60 o swyddi wrth anelu at gynyddu elw cwmniau bach a chanolig yn y diwydiant cynhyrchu. "Nod y cynllun yw creu cyfleoedd i fusnesau mewn trafferth, cystadlu â chwmniau tramor a chreu swyddi," meddai Andrew Davies, y Gweinidog Datblygu Economaidd. "Byddwn yn trefnu fod cwmniau cynhyrchu'n cael defnyddio'r dechnoleg ddiweddara," meddai Cadeirydd SCT, Malcolm Sanders.

**SAITH GWEITHIWR AR Y CLWT**
Mae saith gweithiwr wedi colli eu swyddi am fod cwmni lleol wedi cau. Alan a Carol Jeremy sefydlodd Garth Shed and Fencing ger Gorsaf Ffynnon Taf yn 1985 ac roedd yn llewyrchus. "Roedd ein llyfyr archebion yn llawn," meddai Alan "ond y drafferth oedd bod ein rhent wedi codi 175%."

**BEDYDD BEGW**
Ddydd Sul, Mawrth 2, cynhaliwyd bedydd Begw Non, merch y Parchedig Gareth a Mrs Beth Rowlands.

"Fel eglwys," meddai'r gweinidog "rydym yn tystio i'r pethau mawr ond ar Ddydd Gŵyl Dewi rydym yn tystio i'r pethau bach sy'n llawn mor bwysig."

Dywedodd ei fod wedi bedyddio plant eraill ond bod bedyddio ei blentyn ei hun yn brofiad newydd. Y Parchedig Pryderi Llwyd Jones oedd i fod i weinyddu'r bedydd ond roedd wedi cael trawiad ar ei galon, meddai, ac roedd pawb yn dymuno adferiad buan iddo.

Yn yr un gwasanaeth cafwyd Sioe Gŵyl Ddewi drawiadol a siaradodd Rhys Powys am ei brofiadau yn Japan. Ei thema oedd nad oedd unrhyw genedl yn well na'i gilydd ac y dylai pob cenedl ddysgu cydfyw.

**CLOD I CATRIN**
Llongyfarchiadau i Catrin Dafydd sy wedi ei hethol yn Llywydd UMCA, Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth.

Hi yw merch June a Dafydd Huws, Gwaelod-y-Garth. Pob lwc iddi yn ei swydd newydd.

**MARW JEAN GRINSTEAD**
Ar Fawrth 2, yn dawel yng Nghartre Dyffryn Ffrwd, Nantgarw, bu farw Jean, chwaer Dora a Mabel a modryb Jennifer, Barbara, Ann, Jane, Malcolm a Hugh.

Ar Fawrth 10 roedd y gwasanaeth yng nghapel Tŷ Hebrwng D J Evans Forse, yr Eglwys Newydd, a'r angladd yn Amlosgfa Bryn Draenen, Caerdydd.

## DIGWYDDIADAU

**CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth**, 10.30am. Ebrill 6: Gweinidog (Cymun);
Ebrill 13: Gweinidog; Ebrill 18: Gwasanaeth Gwener y Groglith yn y bore; Ebrill 20: Sul y Pasg, Gweinidog; Ebrill 27: y Parchedig Derwyn Morris Jones.

**CYLCH MEITHRIN Gwaelod-y-Garth,** 9.15-12, Festri Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth. Sesiynau prynhawn ddydd Mawrth a Mercher. Mwy o fanylion: 029 20 813980.

**CYLCH TI A FI Ffynnon Taf:** brynhawn Mercher yn ystod y tymor, 1.15-2.45pm, Neuadd Pentre Ffynnon Taf. Mwy o fanylion: Jo Jones, 029 20 810600.

**CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch:** ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

## YSGOL GYFUN RHYDFELEN

# Eisteddfod 2003

Ar y 13eg o Chwefror roedd Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen dan ei sang â disgyblion Ysgol Gyfun Rhydfelen. Roedd y neuadd yn fôr o liwiau; coch - Iolo, glas golau - Gruffydd, melyn - Hywel, oren - Owain, glas tywyll - Dafydd a phorffor sef Llywelyn.

Ar ôl bore o gystadlu brwd rhwng y llysoedd roedd hi'n bryd am y brif gystadleuaeth - sef y gorau o'r corau! Roedd lleisiau swynol yn atseinio yn y neuadd a phob llys yn canu *Cerddwn Ymlaen* nerth eu pennau. Ar ôl i bawb ddychwelyd i'r neuadd ar ôl cinio, roedd hi'n bryd am y canlyniad. Gruffydd gipiodd y wobr eleni. Daeth Llywelyn yn ail agos gyda Dafydd yn drydydd. Gwibiodd y prynhawn heibio gyda digon o adloniant ar ein cyfer. Roedd y llwyfan yn fwrlwm o ddawnsio, canu a llefaru. Cafwyd eitemau doniol a difrifol gyda phob llys yn cymeradwyo ei gilydd.

Uchafbwynt y cystadlaethau disgo oedd perfformiad Elliot Bodman o flwyddyn 11. Yn sicr mae dyfodol disglair o'i flaen.

Roedd lleisiau swynol Rosie John a Menna Rogers o flwyddyn 11 wedi plesio'r gynulleidfa gyda'u haddasiad Cymraeg o *Eternal Flame, Atomic Kitten*.

Roedd y cyflwyniadau llafar gan lysoedd Iolo a Llywelyn o safon uchel iawn. Cafwyd perfformiad graenus a chaboledig gan bob un o barti llys Iolo o *Tydi Bywyd yn Boen* ond llys Llywelyn a gipiodd y wobr gyntaf.

Yn sicr dylai Liam Major ystyried gyrfa fel athro neu gomedïwr!

Dyma rai o ganlyniadau eraill y diwrnod

**Deialog Blwyddyn 10-13**
1af Dylan Llywelyn a Cerys Davies
2ail Kate Griffiths a Berwyn Pearce
3ydd Eleri Evans a Geraint Walsh.

**Llefaru Unigol Saesneg Blwyddyn 7-9**
1af Lowri John
2ail Sarah Jones
3ydd Bethan Woods

**Unawd Piano 10-13**
1af Laura Jenkins a Saran Johnson
2ail Huw Wilcox
3ydd Bethan Mai.

Enillydd Cwpan Rhyddiaith Cymraeg Mr Clive Rowlands oedd Manon Humphreys o lys Iolo ac enillydd Cwpan Rhyddiaith Cymraeg Mrs Morfudd Stone oedd Bethan Mai o lys Iolo hefyd! Enillydd y Tlws Llenyddiaeth Saesneg i flynyddoedd 7, 8 a 9 oedd Manon Humphreys. Enillydd y Tlws Saesneg i flynyddoedd 10 i 13 oedd Kate Griffiths o lys Hywel.

Arweiniwyd yr Eisteddfod gan yr athrawon a Blwyddyn 12. Cafwyd cyflwyniadau caboledig a difyr gan bob llys yn ei thro. Roedd thema gan bob llys eleni ac roedd pawb yn hoffi crysau T Owain. *Mae'r dyfodol yn ddisglair...Mae'r dyfodol yn Owain.* Wel nid eleni yn anffodus. *Thriller* oedd thema llys Iolo gyda Mr Eurig Thomas yn gweiddi lawr ffôn symudol anferthol. Leigh Fry o Flwyddyn 7 oedd seren y sioe wrth iddo fygwth y llysoedd eraill gyda'i lif cadwyn cardbord yn null Eminem.

Tua hanner awr cyn y canlyniad terfynol roedd seremoni'r Cadeirio. Bardd y Gadair i Flynyddoedd 7, 8 a 9 oedd Gwenno Jones o lys Hywel. Testun ei cherdd oedd *Llygredd.* Buddugwraig Blynyddoedd 10,11,12 a 13 oedd Enfys Dixey o lys Dafydd. Cadeiriwyd Gwenno ac Enfys yn ystod yr un ddefod. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonynt.

Roedd y tensiwn yn annioddefol pan ddaeth Mr Griffiths, y prifathro, i'r llwyfan i gyhoeddi'r canlyniadau terfynol. Yn y chweched safle (yn ôl yr arfer!) oedd Owain. Yn bumed oedd Hywel. Yn bedwerydd oedd Dafydd. Gruffydd oedd yn drydydd. Er mawr syndod i bawb Llywelyn oedd yn ail ( nid ein lliw olaf ) ac am y bedwaredd flwyddyn yn olynol Iolo oedd y pencampwyr.

Diwrnod bythgofiadwy!


**CiC**

**DRAYTON MANOR**

**Cyfle i ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8 ysgolion RH.C.T. i dreulio diwrnod o hwyl yn Drayton Manor gyda CiC ar ddydd Mercher 23 Ebrill.**

**Y pris fydd £20 am y diwrnod.**

**Am fanylion pellach cysylltwch â Cynllun Ieuenctid y Cymoedd**
**01685 882299 cic@urdd.org**


# PASTA A PITSA AR Y PISTE!

Yn ystod yr hanner tymor diwethaf, aeth rhai o athrawon a disgyblion Ysgol Gyfun Rhydfelen i'r Eidal ar drip sgïo. Ar ôl trip bws trwy bum gwlad a gymrodd rhyw 27 awr, cyrhaeddon ni Hotel Firenze yn Aprica yng Ngogledd yr Eidal, ein cartref am yr wythnos. Roedd y pasta, y pizza a'r cwmni yn arbennig!

Cafodd pawb hwyl a daeth pawb yn ôl mewn un darn! Cafodd pawb ddwy wers o sgïo neu fyrddio y dydd, a roedd yna ddau grŵp o fyrddwyr ac un grŵp o sgiwyr. Paratôdd Mr Caffery weithgareddau i ni wneud yn y prynhawn. Roedd rhain yn amrywio o sglefrio iâ i fynd i fwyty a blasu pitsa y ffordd mae fod!

Felly cafodd yr holl griw a aeth amser arbennig ac ar ran yr holl ddisgyblion gadewch i mi ddweud diolch i'r athrawon a ddaeth a diolch yn fawr i Mr Caffery am drefnu'r holl beth.

Meilyr Dixey
Bl.10


**CYD** **MENTER IAITH**

**Dewch i Gerdded a Siarad Cymraeg**

**Prynhawn Sadwrn 5 Ebrill** 1.30 o'r gloch yng nghwmni Gwyn Morgan - Taith o gwmpas mynydd y Darren - ar gyfer bobl sy'n iach ac yn ddewr!

**Prynhawn Sadwrn 17 Mai** 1.30 o'r gloch yng nghwmni Les Davies - Taith o gwmpas ardal hanesyddol Cwmaman a Llanwonno

**Prynhawn Sadwrn 7 Mehefin** 1.30 o'r gloch yng nghwmni Jeff Davies - Taith Hanes Lleol a Bywyd Gwyllt o Benderyn i Hirwaun

Am fanylion pellach ac i gofrestru ffoniwch
RHIAN JAMES 01685 871883 nei 01685 871002 (nos)

# GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

**Croeso Adre**
Croeso adre i Miss Ray Thomas Wood Street sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn Ysbyty'r Waun Caerdydd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae pawb yn falch ei bod nol yn ein plith unwaith eto.

**Wedi Gwella.**
Roedd aelodau'r Dosbarth Cwiltio yn falch i groesawu eu hathrawes Mrs Rainee Bryant yn ôl i'r dosbarth ar ôl treulio amser yn Ysbyty Penybont ac wedyn yn gwella adre. Dymuniadau gorau iddi.

**Drama**
Mae dilynwyr y ddrama bob amser yn edrych ymlaen yn eiddgar at gynhyrchiad Cwmni Drama Gilfach ac ni chawsant ei siomi ar y 10, 1l,a l2ed o Fawrth pan berfformiodd y Cwmni tair drama fer.

Hanes dau cyn-ddisgybl Ysgol Bonedd yn dod ar draws ei gilydd mewn gwesty wedi blynyddoedd lawer a' r cyfarfod yn dwyn i gof eu hatgasedd tuag at ei gilydd pan yn yr ysgol, oedd y ddrama gyntaf sef' Bright Boy' gan Martin Jarvis. Mae Peter Young a Keith Courtfield i'w llongyfarch am eu perfformiadau medrus.

Comedi am fam ac ewythr meddyg canol oed oedd wedi lladd 22 o bobl tra'n ymweld â nhw gan feddwl y byddent yn well eu byd yn y byd nesaf oedd ' A Sense of the Ridiculous' gan Rae Terrence a rhaid canmol Ann Austin, Beryl Ham,Philip Wray ac Allun Warren am wneud i ni chwerthin

Beryl yn fodern ac yn dipyn o haden, a Doris yn hen ffasiwn a sedet yn eistedd ar y traeth ac yn trafod eu cydweithwyr ar wibdaith flynyddol y gwaith, oedd testun y ddrama olaf sef 'Day Trippers' gan Jean Maconnel. Cafwyd perfformiadau slic a chofiadwy gan Marilyn Hodge a Rita Phillips.

Dymuniadau gorau i'r cwmni fydd yn mynd â'r dramau i Gystadleuaeth Drama Un Act Cyngor Penybont yn Theatr y Berwyn.


MENTER IAITH

ar waith yn Rhondda Cynon Taf

01443 226386

www.menteriaith.or


**PARTI PONTY AR Y FFORDD**
Nos Wener 4ydd a Sadwrn 5ed Gorffennaf fydd dyddiadau Parti Ponty eleni gyda'r Fenter Iaith, Urdd Gobaith Cymru, yr ysgolion lleol a chymdeithasau eraill yn gweithio gyda BBC Radio Cymru i ddarparu gwledd o adloniant cyfoes i chi.

Clwb y Bont fydd canolbwynt y digwyddiadau gyda'r nos gyda noson arferol Menter Iaith – yn arbennig i oedolion a dysgwyr y Gymraeg gyda ***HEATHER JONES A'R GRWP MAGU*** eisioes wedi cadarnhau at y nos Wener a gig y bobl ifanc eu hysbryd o dan ofal Yr Urdd ar y nos Sadwrn – bydd manylion y grwpiau allan yn fuan iawn. Yn ystod y dydd bydd adloniant ar gael ym Mharc Ynysangharad rhwng 10am a 5.30pm gyda corau'r ysgolion cynradd yn perfformio yn y bore a DJs Radio Cymru a chyfres o grwpau cyfoes yn ystod y prynhawn. Bydd llu o stondinau newydd ar gael a chyfle i chi brynu neu werthu pob math o bethau gan ddefnyddio eich Cymraeg trwy'r diwrnod. Felly – gwnewch yn siwr bod eich ysgol, cymdeithas a ffrinidau yn ymwybodol o'r dyddiadau, gwnewch yn siwr eich bod yn barod i fwynhau Parti Ponty 2003.

**NOSON I'R TEULU**
Roedd dros 150 o bobl wedi mwynhau Trysor, Mabon, gweithdy drymio, dawns, castell neidio, paentio gwynebau, dysgu Cymraeg, stondinau, chwaraeon, gweithdy hunan amddiffyn, Reflexology ac ati yn y Gymraeg yng Nghanolfan Hamdden Rhondda Fach ar ddiwedd mis Mawrth.

**CYMUNEDAU YN GYNTAF**
Mae Lindsay Jones, Pentre'r Eglwys, wedi cael ei phenodi dros dro i swydd Swyddog Cymryd Rhan Cymunedau Yn Gyntaf gan weithio gyda Sian Ifan yn ein swyddfa yn Nhreorci – 01443 440920 – a fe fydd yn cynnig cyngor, cymorth ac ychydig o arian i grwpiau cymunedol o fewn ardaloedd Cymunedau Yn Gyntaf. Mae blwyddyn gyntaf y prosiect wedi bod yn llwyddiant mawr, er y newidiadau staff, gyda nifer o grwpiau cymunedol Cymraeg yn elwa o'r arian sydd ar gael a chyfres o gyfarfodydd Fforwm Mudiadau Gwirfoddol Cymraeg Rhondda Cynon Taf a drefnir mewn cydweithrediad ag Interlink. Cafwyd trafodaeth wych ar berthnasedd gweithredu mewn partneriaethau yn ddiweddar yng nghwmni Chris Johns Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, Chris Edwards Fforwm Trefol Rhondda Cynon Taf a Bethan Roberts Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

**GOFAL PLANT Y GWYLIAU**
Penderfynwyd cau cynllun chwarae'r gwyliau yn Ysgol Gyfun y Cymmer yn ystod gwyliau'r Pasg oherwydd y costau uchel sydd wrth drefnu cynlluniau felly a'r niferoedd cymharol fach o blant a rhieni yn defnyddio'r gwasanaeth. Mae'n atgoffa ni i gyd nad oes modd cynnal gwasanaethau sydd ddim yn gynaladwy – os nad yw'r arian yno fe fydd pob gwasanaeth yn diflannu yn y pen draw. Wedi wynebu'r newyddion drwg, gwell i ni ddathlu ein hymdrechion i barhau i gynnig gwasanaethau yn Rhydfelen, Llanhari, Abercynon, Bronllwyn a Llynyforwyn. Mae safonau'r gwasaneth yn gwella o hyd gyda gweithdai drymio, dawnsio, perfformiadau grwp Gwerin a Mr Dyn Hud i gyd yn dod yn ystod gwyliau'r Pasg ar ben y cyfleusterau arferol a pherfformiadau'r Criw Coch. Cewch drefnu lle i'ch plant chi drwy ffonio 01443 226386 ac y mae modd i ni dderbyn eich taliad dros y ffôn er mwyn hwyluso'r gwaith trefnu i chi – cofiwch fod yn bwysig i ni gael cymaint o rybudd ag y bo modd.

**LLWYDDIANT Y CLYBIAU CARCO**
Rwyf yn falch o ddweud bod llawer o'r clybiau yn denu niferoedd da wrth i'r plant fwynhau nosweithiau MacDonalds, Pizzas, Ffilmiau, Nofio, Celf a Chrefft, chwaraeon, Carioci, gemau cyfrifiadurol, coginio a phob math o bartion arbennig o dan ofal ein staff gweithgar a brwdfrydig. Mae diolch am lwyddiant y clybiau i Helen Davies sy'n gweithio nawr o'n swyddfa yn Aberdar ar 01685 877183 a Trystan Griffiths sy ar gael ar 01443 226386.

***CIC – CYNLLUN IEUENCTID Y CYMOEDD - YN DARPARU DEWIS O WEITHGAREDDAU AT Y PASG***
Mae ieuenctid, dros 12, Rhondda Cynon Taf hefyd yn cael y cyfle i fwynhau cyfres o weithgareddau gan gynnwys trip i Drayton Manor, Noson Bowlio

Deg, gweithdai dawns a drymio, prosiect ffilm Rhydfelen mewn cydweithrediad gyda Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ogystal â'r gweithgareddau a drefnir o dan enw Urdd Gobaith Cymru. Mae manylion llawn ar gael gan Amy Davies, Victoria Pugh a Rhian James ar 01685 882299.

**NOSWEITHIAU'R CWLWM BUSNES**

Cafwyd sawl noson lwyddiannus iawn yn ystod y misoedd diwethaf ac y mae mwy i ddod. Dean Powell Golygydd Y Ponty Observer sydd yng Nghanolfan Parc Navigation Abercynon ar 29/04/03. Cynhelir Cwrs Ymestyn Busnes cyn yr Haf felly os ydych chi â diddordeb mewn datblygu syniad busnes neu ddatblygu busnes rydych newydd ddechrau rhowch alwad i Julie Williams ar 01685 877183. Cafwyd noson dda iawn hefyd yng nghwmni Potentia yn ddiweddar, gyda 18 o bobl yn Deffro'r Ysbryd Mentrus a gobeithir gweld noson arall yn fuan iawn. Cymaint o lwyddiant sydd i'r Cwlwm Busnes fel y dewiswyd y cwlwm er mwyn lansio ymgyrch y Cynulliad Iaith Pawb gyda'r Cwlwm Busnes ym Mhrifysgol Morgannwg yn ddiweddar gyda Jenny Randerson a Rhodri Williams yn ymuno â Sian Blake – Cadeiryddes y Cwlwm Busnes a pherchennog siop Natural Selection Aberdar – i annog y sector preifat i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.

**OFFER CYFIEITHU AR GAEL I'W LOGI NEU FENTHYG**

Mae'r prosiect cyfieithu cymunedol yn mynd o nerth i nerth o dan ofal Gwynallt Bowen gyda nifer cynyddol o gwsmeriaid o'r sector cymunedol ac hefyd y sector masnachol yn manteisio ar ein gwasanaethau cyfieithu. Os hoffech chi logi neu fenthyg ein hoffer cyfieithu rhowch alwad i Gwynallt ar 01685 877183. Mae'n gallu gwneud gwaith cyfieithu, cynghori ynglyn â threfniadau cyfieithu yn ogystal â llogi allan offer cyfieithu radio ac is-goch.

**CYLLID**

Rydym wedi cyfweld nifer o bobl am y swydd Swyddog Cyllid ac yn gobeithio penodi rhywun yn fuan iawn i'r swydd bwysig hon. Rydym yn chwilio am drysorydd newydd o hyd ac yn awyddus iawn i glywed gan unrhywun fasai yn fodlon i'n helpu gan weithio gyda'r prifweithredwr a'r swyddog cyllid newydd er mwyn cryfhau ein systemau ariannol a sicrhau fod gennym ddigonedd o gyllid i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

***STEFFAN WEBB***
PRIFWEITHREDWR
MENTER IAITH

## NAWDD I EHANGU GOFAL PLANT

Mae Menter Caerdydd wedi derbyn nawdd sylweddol oddi wrth y Gronfa Cyfleoedd Newydd. Y mae nawdd o £55,758 wedi ei gynnig i'r Fenter i agor Clybiau Gofal Gwyliau.

Bwriadwn redeg pedwar cynllun gwyliau drwy'r flwyddyn yn ystod gwyliau'r Haf, gwyliau hanner tymor yr Hydref a Chwefror, gwyliau Pasg a gwyliau Sulgwyn rhwng 8.30 y b - 5.30 yh bob dydd.

Rydym yn y broses o drefnu lleoliadau addas ar gyfer y clybiau. Caiff gwybodaeth bellach ei ddosbarthu i holl ddisgyblion Ysgolion Cynradd Cymraeg Caerdydd cyn y Sulgwyn. Byddwn yn cychwyn ar y prosiect newydd yma Haf 2003 ymlaen.

Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sian 02920 565658 neu ewch i'n safle gwe www.mentercaerdydd.org.

**CLWB CLOCSIO**

Yn ddiweddar y mae Menter Caerdydd wedi sefydlu Clwb Clocsio Cymraeg. Dyma'r clwb cyntaf o'r fath yng Nghaerdydd. Y mae'r Clwb wedi atynnu dros 20 o blant Ysgolion Cymraeg Caerdydd. Rhedir sesiwn pob nos Lun o 5 y.h. – 6 y.h. yn Ysgol Pencae, Llandaf i blant blynyddoedd 2, 3, 4, 5 a 6. Bydd y Clwb yn ail gychwyn 28ain Ebrill. Y mae croeso cynhesaf i aelodau newydd. £2.75 yw pris pob sesiwn, cyfanswm o £22.00 y tymor.

Caiff y sesiynau eu rhedeg trwy gyfrwng y Gymraeg gan staff profiadol a chymwys. Gafyn Ashcroft fydd yn gyfrifol am y sesiynau hyn

Os am fwy o wybodaeth ynglyn â'r clwb clocsio neu waith Menter Caerdydd yn gyffredinol, ffoniwch Sian Lewis ar 02920 565658.

**LANSIO SWYDDFA NEWYDD**

Nid Tŷ'r Cymry, 11 Gordon Road yn y Rhath mo cyfeiriad Menter Caerdydd mwyach ond Tŷ Avocet,




Heol yr Orsaf yn Ystum Taf.

Yn ddiweddar mae'r Fenter wedi bod yn hynod brysur yn trefnu symudiad swyddfa. Yn ogystal â Swyddfa newydd i'r Fenter y mae Logo newydd deniadol sydd werth i'w weld ar ffenestr a tho'r adeilad newydd.

Mae croeso cynnes i bawb ymweld â'r Swyddfa yn Ystum Taf. Dewch yn llu!

**Uned 1, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd. CF14 2FG**
**Rhif Ffon: 029 2056 5658**

## Gadewch i ni e-gyfathrebu

Mae ffigurau diweddaraf Cyfrifiad 2001 yn dangos bod dros 30,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghaerdydd. Mae rhoi gwybodaeth i gynifer o bobl, sydd wedi eu gwasgaru drwy'r brifddinas, am ddigwyddiadau penodol, cyngherddau, dramâu, a gweithgareddau plant yn gallu profi'n anodd.

Mewn ymateb i'r her yma, mae Menter Caerdydd wedi lansio prosiect uchelgeisiol a chyffrous, **e-chlysur**, ar ddiwedd mis Mawrth. sef bas data gynhwysfawr o gyfeiriadau e-bost i gynorthwyo i hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg.

I'r sawl sy heb gofrestru eto ar gyfer y gwasanaeth yma sy'n rhad ac am ddim, anfonwch eich cyfeiriad e-bost i

sianlewis@mentercaerdydd.org

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Richard ac Ann Griffiths, Nantcelyn ar enedigaeth mab bychan, Dafydd Huw. Llongyfarchiadau i Tad-cu a Mamgu Tonteg, Elgar a Nanette Griffiths a Thad-cu a Mamgu Penybont, Tom a Rhiannon Price.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad i Ethyn Henry, Nant y felin a'r merched Louise a Siân a'u teuluoedd ar golli mam Ethyn ddiwedd Chwefror. Roedd Mrs Nancy Richards yn hannu o Landybie ac roedd wedi bod yn wael ei hiechyd am gyfnod hir.

**Llongyfarchiadau**
Estynnwn ein llongyfarchiadau i Christopher Griffiths, mab Colin a Shelagh Griffiths Heol y ffynnon ar gael ei ddyrchafu i swydd cyfarwyddwr ariannol gyda Chwmni Penseiri Wyn Thomas Gordon Lewis, Plas y Parc, Caerdydd.

**Côr Merched y Garth**
Bu aelodau Côr Merched y Garth yn gwneud eu gorau glas i ddiddanu cynrychiolwyr Cynhadledd Awdurdod Iechyd Cyhoeddus yn Neuadd y Ddinas Caerdydd nos Fawrth, Mawrth 18ed. O dan arweinyddiaeth Llinos Swain cyflwynwyd rhaglen amrywiol o ganu gwerin a cherdd dant ac mi wnaeth Meinir Heulyn gyflwyno cadwyn o alawon gwerin ar y delyn. Fe lywiodd Gill Williams y noson yn grefftus gan egluro cefndir y caneuon i'r cynadleddwyr a oedd yno'n cynrychioli Prydain gyfan.

**Parti'r Efail**
Teithiodd aelodau Parti'r Efail i Ddolgellau i gynnal cyngerdd yn Ysgol y Gader, Nos Sadwrn, Mawrth 15ed. Cafodd y Parti a Menna Thomas ei harweinyddes dipyn o hwyl ar y canu yn ôl pob hanes ac roedd Gwyn Hughes Jones ar ei orau yn cyflwyno'r noson. Dylan Cernyw oedd y telynor a gwefreiddiwyd y gynulleidfa gan ei ddatganiadau unigol ar y delyn. Bethan Gwanas oedd llywydd y noson ac mae'n debyg iddi hi a'i thad, Tom Gwanas fywiogi'r dathlu ar ôl y gyngerdd yng Ngwesty'r Ship, lle roedd aelodau'r parti'n aros dros nos.

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Bethan Griffith

**Llongyfarchiadau**
- i Robert Morgan, Alloway, wedi iddo ennill y wobr gyntaf ar yr unawd chwythbrennau yn yr Eisteddfod Sir. Mae Robert, sydd ond yn un ar ddeg oed yn feistr ar chwarae'r sacsoffon, ac yn astudio tuag at ei arholiad Gradd 5. Pob lwc i ti ym Margam - mi fyddwn yn edrych allan amdanat ar y Llwyfan!
- i Ioan Davies Sycharth, sydd newydd basio ei brawf gyrru .

**Croeso**
i Carol a Huw Llewellyn Davies, sydd ar fin ddychwelyd i Bentyrch wedi rhai blynyddoedd.Rwy'n siwr fydddwch yn hapus iawn yma ymysg eich ffrindiau, hen a newydd.

**Clwb y Dwrlyn**
Cawsom brynhawn arbennig o dda yn dathlu diwrnod ein Nawdd Sant yng Nghlwb Golff Radyr. Ar yr ail o Fawrth, daeth nifer dda ohonom ynghyd i fwynhau pryd o fwyd a chwmni ffrindiau. Bowlio Deg ym Mharc Nantgarw yw'r atyniad nesa' ar Nos Fercher 2 Ebrill .Ymunwch â ni.

**Y TABERNACL.**
**Noson Ribidires**
Roedd Noson Ribidires a drefnwyd gan aelodau Teulu Twm yn llwyddiant ysgubol. Cafwyd noson hwylus iawn ac aelodau Teulu Twm yn smart iawn yn gweini'r cawl. Cafwyd amrywiaeth o adloniant i ddilyn ac fe godwyd dros £600.00 i goffrau Apêl Arch Noa.
Diolch i'r aelodau i gyd am drefnu noson hyfryd ac yn enwedig i Bethan a Huw am dywys a chynorthwyo'r Bobol Ifanc.

**Trefn yr Oedfaon am fis Ebrill**
Ebrill 6ed Cymundeb o dan ofal y Gweinidog.
Ebrill 13ed Oedfa'r Plant
Ebrill 20ed Y Parchedig Eirian Rees.
Ebrill 27ain Y Parchedig Eirian Rees.

**Merched y Wawr**
Elen Rhys o Adran Addysg y BBC daeth i'n diddanu yn ddiweddar. Cawsom amrywiaeth o adroddiadau dwys a digri, yn ogystal â chanu.Cawsom nosweth hyfryd yn ei chwmni.

**Neuadd y Pentre**
Mae Neuadd y Pentre wedi llwyddo i dderbyn arian er mwyn gwneud gwelliannau ar yr adeilad. Ariannwyd y cyfan gan y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac o Gronfa Gymunedol y Loteri. Mae'r gwaith a gwblhawyd yn ddiweddar yn cynnwys bwyler a drysau newydd. Mae rhan o'r gwaith, sef goleuadau newydd, yn cael ei gwblhau yn ystod gwyliau'r Pasg.Mawr yw'r ddyled i'r rheiny sydd ar y pwyllgor, sy'n gweithio mor ddyfal ar ein cyfer.

**Dawnswyr o fri**
Mae nifer o ferched ifainc y pentre' yn mynychu gwersi dawnsio Ballet a Thap yn Neuadd y Pentre' yn wythnosol. Yn ystod y mis diwethaf, eisteddon nhw arholiad Tap, ac yn ystod Mis Mehefin fyddant yn eistedd arholiad Ballet. Maent yn amlwg yn mwynhau 'u hunain. Daliwch ati ferched, a phob lwc yn eich arholiadau.

**Cylch Ti a Fi**
Blin yw gorfod cofnodi na fydd y Cylch yn rhedeg wedi gwyliau'r Pasg. Mae'r niferoedd wedi dirywio dros y blynyddoedd, ac yn y cyfarfod diwetha' penderfynwyd cau'r drysau. Mae'n drueni mawr i'r pentre', gan ein bod wedi colli presenoldeb Cylch Meithrin a Ti a Fi yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Ychydig o flynyddoedd yn ôl, roedd y ddwy yn llewyrchus, a llawer o blant y pentre yn eu mynychu. Erbyn heddiw, rhaid cyfaddef mai heneiddio mae poblogaeth ein pentre, gydag ond canran fechan o deuluoedd ifanc yn symud i fyw i'r pentref.

# YSGOL GYFUN LLANHARI

**Rygbi**
Bu criw o tua 45 bachgen a'u hathrawon o Toronto Canada ar daith i Gymru a Lloegr ym mis Mawrth. Buont yn aros gyda theuluoedd disgyblion Llanhari am dridiau ac yn chwarae tîmau dan 16 a dan 18 oed ar nos Iau 13eg o Fawrth. Yn y diwedd cymysgwyd tîmau o fechgyn Llanhari a Toronto gyda'i gilydd er mwyn cael gêm gyfeillgar.

**Geraint Lewis Blwyddyn 11**
Mae Geraint wedi bod yn cymeryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r fyddin – Athletau yn haf 2002, pêl droed ym mis Mawrth a Cadet Cambrian Patrol cyn Nadolig. Mae'n gobeithio ymuno â'r Parachute Regiment ar ôl gadael yr ysgol.

**Gweithdy Drama**
Ar y deuddegfed o Fawrth 2003 aeth criw o tua 28 o ddosbarthiadau drama blwyddyn 10 a 11 i Theatr y Grand, Abertawe. Aethom i weld gweithiau drama Berlot Brecht. Dysgwyd am sut oedd Brecht ei hun yn gweithio ac roedd yr holl beth yn ddiddorol iawn.

**Gweithdy Drama**
Trefnwyd hyn gan yr adran Ymarfer Corff ar gyfer disgyblion bl 7, 8 a 9. Cafodd pawb amser wrth eu bodd a hefyd eu canmol am eu hymddygiad a'r brwdfrydedd yr oeddent wedi dangos.

**Ymarfer Corff**
**Pêl-droed Merched**
Bu tîmau pêl-droed 5 bob ochr i ferched yn cystadlu yng Ngerddi Sophia Caerdydd ar 11eg o Fawrth yn erbyn 13 tîm. Roedd tîm gan bl 7 ac 8 a thîm gan bl 9 a 10. Daeth merched Llanhari yn bumed.

**Nofio**
Bu Kayleigh Smith a Rhiannon Coles o flwyddyn 10 a Holi Smith ac Aimee Jones o flwyddyn 9 yn cystadlu yng nghystadleuaeth Nofio Ysgolion Cymru yn Aberhonddu. Daethant yn ail yn eu rhagras ac wedi mwynhau cael diwrnod i



**Geraint Lewis**

ddangos eu doniau nofio.

**Hoci Cylch**
Ar y 7ed o Fawrth fe aeth merched o flwyddyn 7, 8 a 9 i gystadleuaeth hoci cylch. Fe ennillon nhw y gystadleuaeth yma gan guro Blaengwawr a Bryntirion a mynd ymlaen i'r gystadleuaeth Sirol.

**Athletau**
Mae Rhian Thomas, Rhian Phillips, Geraint Baldwin, Aled Davies a Kristina Morris yn cael cyfle i fynd ar gwrs athletau yng nghanolfan Athletau Dan Do,UWIC Caerdydd.


**Judo**
Mae Sarah Connolly eto wedi bod yn cynrychioli Cymru a Phrydain mewn cystadleuaeth judo yng ngwlad Belg yn ddiweddar.

## Gweithgareddau Dara Mawrth 12eg 2003

Mae'r gweithgareddau Dara yn anelu at helpu disgyblion blwyddyn 9 i weithio mewn grwpiau, datrys problemau gwyddonol a mathemategol mewn ffordd hwylus a gobeithio agor llygaid y disgyblion i yrfa mewn peirianneg. Mae Dara yn rhedeg gweithdy peirianneg bob dydd Sadwrn yn Sain Tathan i ddisgyblion blwyddyn 10.

Sialens y bore oedd i symud marbl o un ochr caledfwrdd A2 i'r ochr gyferbyn mewn 30 eiliad wrth ddefnyddio gwelltyn, bluetack a blociau pren. Y cam nesaf oedd i adeiladu rhyw fath o strwythur i'r bêl rolio o ddiwedd y caledfwrdd i ganol yr ystafell wrth ddefnyddio 3 tudalen A4 a rolyn o dâp selo.

Llongyfarchiadau i enillwyr y ddwy sialens sef Bethan Henderson, Ffion Williams, Natalie Jones a Claire Elward. Mae'r bedair merch wedi derbyn gwahoddiad i'r rownd derfynol ym mis Mehefin yn Dara, Sain Tathan.




**Arbrofi yn Dara**

# LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Siân Evans

**CYNNWRF YN EGLWYS LLANTRISANT**

Ynghanol gwynt, glaw a storom o gesair yn ystod y prynhawn ar Fawrth y 1af, bu llond lle o enwogion byd rygbi a byd teledu Cymru yn gwneud eu ffordd i Eglwys Llantrisant. Yr achlysur oedd priodas Rupert Moon (y cyn-chwaraewr rygbi a chyflwynydd teledu a radio) a Debbie Jones (actores ar 'Pobol y Cwm'). Roedd criw ffilmio'r rhaglen "Welsh in a Week" wedi bod yn dilyn Rupert Moon am wythnos gan ei fod am ddweud ei addunedau yn Gymraeg a darlledwyd y rhaglen yn ddiweddarach yn y mis. Cafodd y Ficer ambell wers Gymraeg hefyd, er mwyn iddo fedru arwain y seremoni yn iaith y nefoedd. Cafodd trigolion y dre dipyn o sioc hefyd yn hwyrach yn y prynhawn oherwydd i un o ffrindiau'r cwpwl drefnu arddangosfa o dân gwyllt wrth iddynt adael yr Eglwys!

Nid dyma'r tro cyntaf i Eglwys Llantrisant ymddangos ar "Welsh in a Week" gan fod y Curad hefyd wedi ymgymryd â chwrs carlam Cymraeg ar gyfer y rhaglen y llynedd.

**CASTELL LLANTRISANT**

Mae'n bosib y caiff adfeilion y castell a'r ardal o'i gwmpas ei wedd newid, yn sgîl arolwg a gwaith ymchwil bosib. Y gobaith yw gwneud y castell, sef yr unig adeilad canol oesol yn ein Bwrdeistref, yn fwy o atyniad twristaidd fydd wedyn yn dod â buddion i'r economi lleol. Trafodwyd y cynllun yn ddiweddar mewn cyfarfod ar y cyd rhwng swyddogion o Gyngor Rhondda Cynon Taf a phobol busnes lleol ond rhaid aros am ganlyniadau'r arolwg cyn cael gwybod os caiff y cynllun mynd yn ei flaen.

**LLONGYFARCHIADAU**

i Iolo James ar ennill y wobr gyntaf yng Nghystadleuaeth Iolo Morgannwg ar gyfer disgyblion Blwyddyn 8 ac i Gwenan Evans ar ddod yn ail o blith disgyblion Blwyddyn 7.

**EISTEDDFOD YR URDD**

Llongyfarchiadau i bawb o'r cylch fu'n cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen at gael clywed hynt a helynt pawb sy'n mynd ymlaen i gystadlu yn y Genedlaethol ym Mharc Margam ddiwedd mis Mai – dymuniadau gorau i chi gyd!

# YSGOL GARTH OLWG

**Dathlu Diwrnod y Llyfr**

Treuliwyd diwrnod cyffrous iawn wrth ddathlu diwrnod y llyfr ar Fawrth 6. Treuliodd Bardd Plant Cymru - Menna Elfyn - y diwrnod yn yr ysgol yn cyfansoddi gyda phlant Blynyddoedd 5 a 6, a threuliodd Mair Tomos Ifans (Rala Rwdins) y diwrnod yn sgwrsio a darllen storïau i'r plant Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Ymwelydd arall oedd Eiri Palfrey, a fu'n arwain plant Garth Olwg fel rhan o'r `parti llafar mwya y byd' - yn llefaru geiriau Menna Elfyn "Galw Enwau". Recordiwyd y cyfan gan Radio Cymru ac Uned Teledu BBC Cymru, ac mae diolch yr ysgol yn fawr, i'r Cyngor Llyfrau am drefnu ac ariannu'r diwrnod.

**Diwrnod Trwynau Coch.**

Trwy amrywiol weithgareddau, llwyddodd y plant i godi £144 tuag at apêl `Trwynau Coch'.

**Eisteddfod Gylch yr Urdd.**

Llongyfarchiadau i blant bob ysgol fu'n cystadlu mor egnïol â chyfeillgar yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Llanhari ar Fawrth 15ed. Mwynhaodd plant Garth Olwg y diwrnod, a'u llwyddiant wrth sicrhau 7 cyntaf, 4 ail a 4 trydydd safle. Yn wobr haeddiannol am waith caled - y cystadleuwyr a'r hyfforddwyr. Dymuniadau gorau i blant bob ysgol fydd yn cynrychioli'r Cylch yn yr Eisteddfod Sir yn Nhreorci ar Fawrth 29ain.

**Cymdeithas Rhieni ac Athrawon.**

Disgo'r Teulu nesaf wedi ei drefnu ar gyfer Ebrill 4 - disgo i ddathlu cyrraedd gwyliau'r Pasg fydd y disgo yma - Plant dan 7 oed yn dawnsio o 6.30 - 7.45 o'r gloch, a'r plant hyn o 8.88 - 9.15 o'r gloch.

**Cwrs Preswyl - Blwyddyn 5.**

Mae grŵp o blant Blwyddyn 5 yn edrych ymlaen yn eiddgar tuag at gyfle i aros ym Mhentre Ifan am dridiau ar ddechrau Ebrill. Yr ymweliad yma fydd yr ail i blant Garth Olwg, gan i grŵp o Flwydddyn 6 dreulio tridiau ym Mhentre Ifan, fel rhan o `Gynhwysiad Cymdeithasol' yn ôl yn Nhymor yr Hydref. Mr Llyr Meredith oedd yn gyfrifol am blant Blwyddyn 6; tymor yma Mrs Rhian Widgery fydd yn cadw trefn.

**Pêl-rwyd.**

Enillodd y merched pêl-rwyd ddwy gêm wythnos diwethaf - un 5-0, ac un 1-0; y ddwy gêm yn erbyn Gwauncelyn. Llongyfarchiadau ferched.

**Cwis Llyfrau.**

Llongyfarchiadau cynnes iawn i'r ddau dîm Cwis Llyfrau - dan 10 oed a dan 12 oed, ar eu llwyddiant yn ennill eu lle yn y rownd sirol ym mis Mai. Bu'r ddau dîm yn cystadlu yn y rownd lleol ym Mhenybont. Llongyfarchiadau i'r plant a diolch o galon i'r ddwy hyfforddwraig - Mrs Tomlinson a Mrs Davies.

**Twrnament Pêl Droed - Gerddi Sophia - Caerdydd.**

Ar Fawrth 12, bu tîm pêl-droed yr ysgol yn rhan o dwrnament pêl-droed yng ngerddi Sophia wedi ei drefnu gan glwb pêl-droed Caerdydd.


Chwaraeodd bechgyn Garth Olwg bum gêm, ennill tair gem, colli un ac un gêm yn gyfartal. Rhoddodd hyn ganlyniad terfynol iddynt o drydydd yn eu grŵp.

CROESAIR COL

Mae datrysiad croesair Mawrth ar safle www.tafelai.net. Yr ennillydd oedd Loreen Williams, Penywaun, Efail Isaf.

## Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau.

**Atebion i: Croesair Col**
**34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn,**
**Pontyclun. CF72 8QX**
**erbyn 24 Ebrill 2003**



**Ar Draws**

1 a 2 i lawr. Â Sioned â mwd i'th dŷ i'w drefnu. Heb os nac oni bai. (3,3,3,7)
7. Ar y brig yn y goeden mae'n ymddangos. (6)
8. Yn bod mwy is y mae'r rhan o'r meddwl (9)
12. Pa amser i gymryd ewyn i ddangos eich gwedd (8)
13. Mae mamgu Iago'n colli pedol a nid yw'n mynd yn union syth (4,4)
14. Naill ai golli un ac un eto, ta waeth does neb gartref (4)
16. Yr un y'th drefnaist i ym-gartrefu (4)
19. Mae'r neidr anferth yn llyncu 50 i lenwi ei hystumog (4)
21. Sôn am sŵn isel (2)
23. Yn Lloegr, cer i ruddnu (2)
28. Yng nghanol banana du rhoi gri uchel (4)
31. Cymryd saib i edrych yn y gogledd (4)
34. Yn dechrau gwancio ond nid yw'n gryf (4)
35. Dyna un o'n trefniadau i wneud negeseuon byr (8)
36. Cymryd cant o oleuadau ac ychwanegu un. Maent yn anferth. (8)
38. Welwch ar yr ail gynnig y rhai a ennillasai bywoliaeth yn y gogledd ers talwm (9)
40. Mae e'n disgwyl rhywbeth ond rhaid iddo aros amdano (6)
41. Mae'r bara braidd yn anwar rhywsut (9)

**I Lawr**

1. Mae eisiau einion swnllyd iawn i wneud y blaned (7)
2. Gweler 1
3. Wel, am les! (3)
4. Ar ben, a diwedd y cynnig—ond yn neilltuol (8)
5. newid ongl ger Aberystwyth i fynd am y bad stêm (7)
6. Ac yna, daeth i roi'r gyfraith mewn grym (7)
9. Bu'n troi ar ddechrau'r ysgol yn rhoi casgliad o lafur i ni (7).
10. O alw gyda 1000 ceir enamel (5)
11. Yr ŷd yn troi i ti (2)
15. Dial i 50 yn y baw (4)
17. Yr anifeiliaid rych chi'n cuddio (2)
18. Ninnau yn Lloegr yn cael plisg grawn llafur (2)
20. Mewn poen aruthrol mae bwrw defaid bach (4)
22. Pesgi tan ei fod yn newid i swyddog yn y fyddin (8)
24. Troi felly yn Lloegr i gael cysylltiad Cymraeg (2)
25. Geiryn am y person cyntaf (2)
26. Wrth roi clec i Di cawn bachyn i agor drws (7)
27. Bydd e'n gadael yn fyrrach (7)
29. Mae un a naw yn gwneud rhywun yn anffyddiol (5)
30. Beth a ddaw o drechu y mesur o'r gwaelod i'r top (5)
32. Â B.A. i Wynedd i ddangos sut un ydyw (5,2)
33. Ar y dde i Arthur mae rhyfeddod (7)
37. Mae'r wrach yn mynegi atgasedd (2)
39. Mae mwnci yn Lloegr yn mynd yn wysg ei gefn i ddangos mwnnci yng Nghymru (3)

## Atebion Croesair Mis Mawrth

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | Y | N | T | | A | | A | N | A | F |
| | N | | R | W | B | E | L | | L | |
| | Y | | O | | E | | A | | O | |
| A | S | Y | N | | R | | R | E | I | S |
| N | | | S | O | TH | A | CH | | | A |
| RH | U | O | | E | | E | | RH | A | FF |
| E | | | A | D | A | R | A | | | W |
| G | L | A | N | | R | | F | E | LL | Y |
| | I | | L | | A | | A | | AI | |
| | L | | W | E | D | Y | N | | | |
| T | I | N | C | | R | | C | A | S | T |

Yn Eisiau:

**Arweinydd Cylch Meithrin Ynysybwl (yn dechrau Medi 2003)**

Cymwysterau: Profiad o weithio mewn cylch yn ogystal â Cache Lefel 3 (neu'n fodlon gwneud y cwrs hwn ym mis Medi 2003).

Y Gymraeg: Y mae'n angenrheidiol bod yr ymgeisydd yn rhugl neu yn ddysgwr/wraig da/dda iawn.

Oriau: 12.45 - 15.15 Llun, Mawrth, Mercher ac Iau
Cyflog: I'w drafod

**Mudiad Ysgolion Meithrin**

## Swyddog Datblygu Rhondda Taf

Rydym yn chwilio am berson â phrofiad ym maes Blynyddoedd Cynnar, neu mewn maes cysylltiol. Bydd gan y sawl a benodir sgiliau rhyngbersonol o'r radd flaenaf, a'r gallu i drafod yn y Gymraeg a'r Saesneg ar y lefel uchaf.

**Telerau**
**Cyflog:** NJC 21 - 25 (£16,515-£18,582 pro rata am 40 awr)
**Oriau:** 30awr yr wythnos
**Gwyliau:** 6 wythnos

## Swyddog Cydlynu Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

Rydym yn chwilio am berson brwdfrydig i weithio gyda chylchoedd meithrin a chylchoedd Ti a Fi yn y sir, ac i ddatblygu darpariaeth Mudiad Ysgolion Meithrin yn y sir. Rydym yn chwilio am berson sy'n frwd dros y Gymraeg, gyda phersonoliaeth sy'n caniatau iddo/iddi gyfathrebu yn effeithiol ar sawl lefel.


**Telerau**

**Am wybodaeth pellach ffoniwch Danny Grehan (01443 671577) neu swyddfa MYM yng Nghaerdydd (029 20 43**


# Cornel y Plant

**Lliwich yr het Pasg ac atebwch y posau.**

**Joiwch y gwyliau!**



## Hetiau pwy yw y rhain?



Atebion:
1. Het gymreig
2. Het Albanwr
3. Môr leidr
4. Cowboi
5. Indiaid Cochion

**Rhowch yr atebion yn y blychau a cheisiwch ddatrys y pôs.**

| | A | B | C | CH | D | DD | E |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | | | | |
| 2 | | | | | | | |
| 3 | | | | | | | |
| 4 | | | | | | | |
| 5 | | | | | | | |
| 6 | | | | | | | |

1. Beth yw Galaxy, Mars a Milky Way?
2. Beth sy'n tyfu mewn gardd?
3. Rydym yn ----- penblwydd yr Iesu adeg y Nadolig.
4. Mae wyau ---- yn flasus iawn.
5. Cartref aderyn.
6. Mae aderyn yn dodwy hwn.

Y Neges:

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4ch | 6a | 6b | 2b | 1b | 2d | 3d |
| | 3a | 3b | | 1b | | |
| | 2a | 4b | 6a | 2a | | |

**Atebion:** 1, Siocled; 2, Blodau; 3, Dathlu; 4, Pasg; 5, Nyth; 6, Wy.